~~(b) person a ddisgrifir ym mharagraff (3), y mae'r amod ym mharagraff (4) wedi ei fodloni mewn cysylltiad ag ef.~~[2]

~~(3) Y disgrifiadau o bersonau yw—~~

~~(a) person sy'n weithiwr cludiant teithwyr ffyrdd, o fewn ystyr paragraff 6A o Atodlen 2;~~

~~(b) person a ddisgrifir ym mharagraff 7 o Atodlen 2 (meistri a morwyr);~~

~~(c) person a ddisgrifir ym mharagraff 8 o Atodlen 2 (peilotiaid ar longau masnach);~~

~~(d) person a ddisgrifir ym mharagraff 9 o Atodlen 2 (arolygwyr a syrfewyr llongau);~~

~~(e) person a ddisgrifir ym mharagraff 10 o Atodlen 2 (criw awyren);~~

~~(4) Mae'r amod a grybwyllir ym mharagraff (2)(c) wedi ei fodloni mewn perthynas â pherson os nad yw'r person, ar ei daith i Gymru, ond wedi teithio—~~

~~(a) ar long neu awyren nad yw'n cludo teithwyr;~~

~~(b) mewn rhan o long neu awyren nad yw teithwyr yn cael mynd iddi.~~[3]

~~Nodiadau:~~

[1] ~~Mewnosodwyd gan reoliad 5(2)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 22/11/21)~~

[2] ~~Hepgorwyd gan reoliad 5(2)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 22/11/21)~~

[3] ~~Hepgorwyd gan reoliad 5(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 22/11/21)~~

**~~4. Gofyniad i ddarparu gwybodaeth am deithiwr~~**

~~(1) Rhaid i P gyflwyno'r wybodaeth ganlynol i'r Ysgrifennydd Gwladol yn electronig wrth gyrraedd neu cyn cyrraedd Cymru, gan ddefnyddio cyfleuster a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol at y diben hwn—~~

~~(a) gwybodaeth am deithiwr ar gyfer P, a~~

~~(b) pan fo P yn cyrraedd Cymru yng nghwmni plentyn y mae gan P gyfrifoldeb amdano, gwybodaeth am deithiwr ar gyfer y plentyn,~~

~~(2) Pan fo P yn cyrraedd Cymru drwy borthladd—~~

~~(a) rhaid i P gydymffurfio â pharagraff (1) cyn gadael y porthladd, a~~

~~(b) rhaid i swyddog mewnfudo yn y porthladd ddarparu P unrhyw gynhorthwy y mae'r swyddog yn ei ystyried yn angenrheidiol i alluogi P i gydymffurfio â pharagraff (1).~~

~~(3) Nid yw'n ofynnol i P gydymffurfio â pharagraff (1) os yw'r wybodaeth am deithiwr wedi ei darparu'n electronig i'r Ysgrifennydd Gwladol gan ddefnyddio cyfleuster a ddarparwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol at y diben hwnnw, cyn i P gyrraedd Cymru.~~

~~(4) Ond pan fo paragraff (3) yn gymwys, rhaid i P ddarparu tystiolaeth i swyddog mewnfudo bod y wybodaeth am deithiwr wedi ei ddarparu, os gofynnir iddo wneud hynny gan y swyddog.~~

~~(5) Pan fo P yn blentyn y mae gwybodaeth am deithiwr mewn cysylltiad ag ef wedi ei darparu gan berson sydd â chyfrifoldeb am P, yn unol â pharagraff (1)(b), nid yw paragraff (1)(a) yn ei gwneud hi'n ofynnol i P ddarparu gwybodaeth am deithiwr ar gyfer P.~~

### ~~5. Gofyniad i hysbysu ynghylch newidiadau i wybodaeth am deithiwr~~

~~(1) Mae paragraff (2) yn gymwys—~~

~~(a) pan fo'n ofynnol gan reoliad 7 neu 8 i P breswylio mewn mangre (ac i beidio â gadael y fangre na bod y tu allan iddi) tan ddiwedd diwrnod olaf ynysiad P (o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 12), a~~

~~(b) pan fo gwybodaeth am deithiwr ar gyfer P yn newid cyn diwedd y diwrnod hwnnw.~~

~~(2) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, rhaid i P ddarparu i'r Ysgrifennydd Gwladol yn electronig wybodaeth am deithiwr sydd wedi ei diweddaru cyn gynted ag y bo'n resymol ymarferol, gan ddefnyddio'r cyfleuster a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol at y diben hwnnw.~~

~~(3) Pan fo P yn blentyn y mae gan berson arall gyfrifoldeb amdano—~~

~~(a) nid yw'n ofynnol i P ddarparu gwybodaeth am deithiwr sydd wedi ei diweddaru o dan baragraff (2), a~~

~~(b) mae'n ofynnol i'r person arall, ar ran P, ddarparu'r wybodaeth am deithiwr sydd wedi ei diweddaru.~~

### ~~6. Gwybodaeth am deithiwr nad yw ym meddiant neu o dan reolaeth person~~

~~Nid oes dim yn rheoliad 4 neu 5 sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth am deithiwr nad yw ym meddiant y person neu o dan ei reolaeth.~~

## ~~RHAN 2A~~

## ~~Hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol etc.~~

### ~~6A. Gofyniad i feddu ar hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol~~

~~(1) Rhaid i berson ("P") sy'n [11 12[4]] oed neu drosodd sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin feddu wrth gyrraedd—~~

~~(a) hysbysiad dilys o ganlyniad negyddol i brawf cymhwysol a gymerwyd gan P, a~~

(b) pan fo P yn oedolyn sy'n cyrraedd Cymru gyda phlentyn sy'n [11 12[4]] oed neu drosodd y mae gan P gyfrifoldeb drosto, ar hysbysiad dilys o ganlyniad negyddol o brawf cymhwysol a gymerwyd gan y plentyn.

(2) O ran P—

(a) pan fo'n meddu ar hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1), a

(b) pan ofynnir iddo wneud hynny gan swyddog mewnfudo,

rhaid i P ddangos yr hysbysiad, naill ai'n ffisegol neu'n ddigidol, os gofynnir iddo wneud hynny gan swyddog mewnfudo.

(3) Nid yw paragraffau (1) a (2) yn gymwys i P os yw P yn blentyn o dan [11 12[5]] oed sy'n cyrraedd Cymru gydag oedolyn sydd â chyfrifoldeb dros P.

(4) Ym mharagraffau (1) a (2), nid yw cyfeiriadau at P yn cynnwys—

(a) person a ddisgrifir ym mharagraff 2, 3, 4, 7, 8, 9, 10 neu 11, o Atodlen 2,

(b) gweithiwr cludiant ffyrdd fel y'i disgrifir ym mharagraff 6 o Atodlen 2.

(c) person a ddisgrifir mewn unrhyw is-baragraff o baragraff 3(1) o Atodlen 1A.

(d) person a ddisgrifir ym mharagraff 14 o Atodlen 5.;[1]

[(e) person sy'n deithiwr rheoliad 2A.[2]][6]

(f) person sy'n deithiwr rheoliad 2A.[7]

(5) At ddibenion y rheoliad hwn—

(a) mae prawf yn brawf cymhwysol os yw'n cydymffurfio â pharagraff 1 o Atodlen 1A,

(b) mae hysbysiad o ganlyniad negyddol yn ddilys os yw'n cynnwys yr wybodaeth a bennir ym mharagraff 2 o Atodlen 1A.—

(i) os yw wedi ei ddarparu drwy Dystysgrif COVID Ddigidol yr UE, neu

(ii) os yw'n cynnwys yr wybodaeth a bennir ym mharagraff 2 o Atodlen 1A.[3]

Nodiadau:

1 Amnewidiwyd gan reoliad 4(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Hysbysu) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (21/09/21)

2 Amnewidiwyd gan reoliad 5(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) 2021 (4.00am 04/10/21)

3 Amnewidiwyd gan reoliad 4 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2021 (4.00am 11/10/21)

4 Amnewidiwyd gan reoliad 2(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 4) 2021 (4.00am 07/12/21)

5 Amnewidiwyd gan reoliad 2(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 4) 2021 (4.00am 07/12/21)

6 Hepgorwyd gan reoliad 2(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 4) 2021 (4.00am 07/12/21)

7 Mewnosodwyd gan reoliad 4 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 (4.00am 07/01/22)

## ~~Rhan 2B~~

## ~~Gofynion profi mandadol~~

### ~~6AB. Gofyniad i archebu a chymryd profion~~

~~(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i berson ("P") sy'n 5 oed neu drosodd—~~

~~(a) sy'n cyrraedd Cymru,~~

~~(b) sydd wedi bod y tu allan i'r ardal deithio gyffredin o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, ac~~

~~(c) nad yw'n berson a ddisgrifir yn—~~

~~(ai) rheoliad 6L;[1]~~

~~(i) paragraff 1(1)(a) i (k) o Atodlen 2 sy'n bodloni'r amodau ym mharagraff 1(2) o'r Atodlen honno;~~

~~(ii) paragraffau 2 i 16, ac 36 o Atodlen 2;~~

~~(iii) paragraff 14 o Atodlen 5.~~

~~(2) Yn y Rhan hon—~~

~~(a) "prawf diwrnod 2" yw prawf sy'n cydymffurfio â pharagraff 1 o Atodlen 1C sy'n cael ei gymryd o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 1A o'r Atodlen honno;~~

~~[(a) "prawf diwrnod 2"—~~

~~(i) mewn cysylltiad â pherson nad yw rheoliad 2A yn gymwys iddo, yw prawf sy'n cydymffurfio â pharagraff 1 o Atodlen 1C sy'n cael ei gymryd o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 1A o'r Atodlen honno;~~

~~(ii) mewn cysylltiad â theithiwr rheoliad 2A, yw—~~

~~(aa) prawf a ddisgrifir yn is-baragraff (i), neu~~

~~(bb) prawf sy'n cydymffurfio â pharagraff 1ZB o Atodlen 1C sy'n cael ei gymryd o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 1A o'r Atodlen honno;[6]~~

~~(a) "prawf diwrnod 2" yw prawf sy'n cydymffurfio â pharagraff 1 o Atodlen 1C sy'n cael ei gymryd o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 1A o'r Atodlen honno;][7]~~

~~(a) "prawf diwrnod 2"—~~

~~(i) mewn cysylltiad â pherson nad yw rheoliad 2A yn gymwys iddo, yw prawf sy'n cydymffurfio â pharagraff 1 o Atodlen 1C sy'n cael ei gymryd o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 1A o'r Atodlen honno;~~

~~(ii) mewn perthynas â theithiwr rheoliad 2A, yw—~~

~~(aa) prawf a ddisgrifir ym mharagraff (i), neu~~

~~(bb) prawf sy'n cydymffurfio â pharagraff 1ZBA o Atodlen 1C sy'n cael ei gymryd o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 1A o'r Atodlen honno.[9]~~

~~(b) "prawf diwrnod 8" yw prawf sy'n cydymffurfio â pharagraff 2 o Atodlen 1C sy'n cael ei gymryd o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 2A o'r Atodlen honno;~~

~~(c) "darparwr prawf cyhoeddus" yw person sy'n darparu neu'n gweinyddu prawf gan arfer pwerau o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006, Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978, neu Orchymyn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1972;[3]~~

(d) ystyr "pecyn profi" yw—

(i) mewn cysylltiad â pherson y mae rheoliad 7(1) neu 8(1) yn gymwys iddo, nad yw rheoliad 2A yn gymwys iddo[8] archeb ar gyfer prawf diwrnod 2 a phrawf diwrnod 8;

[(ii) mewn cysylltiad â pherson ("P") sy'n cyrraedd Cymru ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth esempt a restrir yn Atodlen 3 o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, archeb ar gyfer prawf diwrnod 2.][3]

[(ii) archeb ar gyfer prawf diwrnod 2 mewn cysylltiad ag—

(aa) person ("P") sy'n cyrraedd Cymru ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth esempt a restrir yn Atodlen 3 o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru;

(bb) teithiwr rheoliad 2A.[2]

(ii) mewn cysylltiad â theithiwr rheoliad 2A, archeb ar gyfer prawf diwrnod 2.][5]

(3) Pan fo P yn oedolyn, rhaid i P, wrth iddo gyrraedd Cymru, feddu ar becyn profi a drefnir gyda darparwr prawf cyhoeddus darparwr prawf[4]—

(a) ar gyfer P, a

(b) ar gyfer plentyn sy'n 5 oed neu drosodd y mae gan P gyfrifoldeb drosto ac y mae P yn teithio gydag ef.

(4) Pan fo P yn oedolyn sy'n cyrraedd Cymru heb feddu ar becyn profi sy'n ofynnol o dan baragraff (3), rhaid i P gael pecyn profi cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(5) Nid yw prawf i'w drin fel pe bai wedi ei drefnu yn unol â'r rheoliad hwn oni bai—

(a) bod y person sy'n trefnu'r profion wedi hysbysu'r darparwr prawf cyhoeddus darparwr prawf[4] fod y profion yn cael eu trefnu at ddibenion y rheoliad hwn, a

(b) bod yr wybodaeth yn Atodlen 1B wedi ei darparu i'r darparwr prawf cyhoeddus mewn perthynas â P.

(6) Pan drefnir y profion, rhaid i'r darparwr prawf cyhoeddus darparwr prawf[4] ddarparu cyfeirnod prawf—

(a) i P, a

(b) i unrhyw berson sy'n trefnu profion ar ran P.

(7) Yn ddarostyngedig i baragraff (8), pan fo P—

(a) yn oedolyn, rhaid iddo gymryd y profion yn unol â'i becyn profi;

(b) yn blentyn sy'n 5 oed neu drosodd, rhaid i oedolyn sydd â chyfrifoldeb dros P sicrhau, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, fod P yn cymryd y profion yn unol â'r pecyn profi.

(8) Pan fo prawf diwrnod 2 P yn cynhyrchu canlyniad positif, nid yw'n ofynnol i P gymryd prawf diwrnod 8.

(9) Pan na fo P yn cymryd prawf fel sy'n ofynnol gan y rheoliad hwn am fod ganddo esgus rhesymol, rhaid i P, cyn gynted ag y bo'n ymarferol pan na fydd y materion sy'n arwain at yr esgus rhesymol yn gymwys mwyach, gymryd prawf ("prawf arall") sy'n cydymffurfio â'r gofynion sy'n gymwys i'r prawf nas cynhaliwyd.

(10) Pan gymerir prawf arall yn lle—

(a) prawf diwrnod 2, mae P i'w drin fel pe bai wedi cymryd prawf diwrnod 2 yn unol â'r rheoliad hwn;

(b) prawf diwrnod 8, mae P i'w drin fel pe bai wedi cymryd prawf diwrnod 8 yn unol â'r rheoliad hwn.

~~(11) Rhaid i berson sy'n meddu ar becyn profi ddarparu tystiolaeth ohono os yw swyddog mewnfudo neu gwnstabl yn gofyn amdani.~~

~~Nodiadau:~~

~~1 Amnewidiwyd gan reoliad 5(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021 (4.00am 19/07/21)~~

~~2 Amnewidiwyd gan reoliad 5(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021 (4.00am 19/07/21)~~

~~3 Hepgorwyd gan reoliad 4(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Hysbysu) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (21/09/21)~~

~~4 Amnewidiwyd gan reoliad 4(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Hysbysu) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (21/09/21)~~

~~5 Amnewidiwyd gan reoliad 6 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) 2021 (4.00am 04/10/21)~~

~~6 Amnewidiwyd gan reoliad 4(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 31/10/21)~~

~~7 Amnewidiwyd gan reoliad 3(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21)~~

~~8 Amnewidiwyd gan reoliad 3(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21)~~

~~9 Amnewidiwyd gan reoliad 5 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 (4.00am 09/01/22)~~

### ~~6DA. Gofyniad i ynysu o fethu â chymryd profion: teithwyr o wledydd a thiriogaethau nad ydynt yn esempt~~

~~(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn cysylltiad â pherson ("P") y mae rheoliadau 6AB(1) a naill ai 7(1) neu 8(1) yn gymwys iddo rheoliad 6AB(1) yn gymwys iddo ac nad yw rheoliad 2A yn gymwys iddo[1].~~

~~(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo—~~

~~(a) P yn methu â chymryd prawf diwrnod 8, a~~

~~(b) naill ai—~~

~~(i) P yn methu â chymryd prawf diwrnod 2, neu~~

~~(ii) prawf diwrnod 2 P yn cynhyrchu canlyniad negyddol neu amhendant.~~

~~(3) Pan fo paragraff (2) yn gymwys, diwrnod ynysu olaf P o dan reoliad 7 neu 8 yw diwrnod olaf y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod yr oedd P mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt ddiwethaf (ac nid yw rheoliad 12 yn gymwys at ddibenion pennu diwrnod ynysu olaf P).~~

~~(4) Pan fo paragraff (2) yn gymwys ond bod P yn cymryd prawf y mae paragraff (5) yn gymwys iddo wedi hynny a—~~

~~(a) bod y canlyniad yn bositif, mae rheoliad 6E yn gymwys fel pe bai'r prawf wedi ei gymryd yn unol â rheoliad 6AB;~~

~~(b) bod y canlyniad yn negyddol, mae rheoliad 6G yn gymwys fel pe bai—~~

~~(i) P wedi cymryd prawf diwrnod 2 a phrawf diwrnod 8 yn unol â rheoliad 6AB, a~~

~~(ii) y ddau brawf yn negyddol~~

~~(5) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i brawf diwrnod 8 a gymerir—~~

(a) ~~cyn diwedd cyfnod ynysu P fel y byddai wedi ei bennu o dan reoliad 12 pe na bai paragraff (2) yn gymwys, ond~~

(b) ~~yn ddim cynharach na diwedd y seithfed diwrnod ar ôl y diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.~~

~~Nodiadau:~~

~~1 Amnewidiwyd gan reoliad 4 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21)~~

**~~6DB Gofyniad i ynysu o fethu â chymryd profion: teithwyr o wledydd a thiriogaethau esempt~~**
**~~Gofyniad i ynysu o fethu â chymryd profion: teithwyr [o wledydd a thiriogaethau esempt a theithwyr[3]] rheoliad 2A[1]~~**

(1) ~~Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn cysylltiad â pherson ("P") y mae rheoliad 6AB(1) yn gymwys iddo ond nad yw rheoliad 7(1) na 8(1) yn gymwys iddo.~~

(1) ~~Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i deithiwr rheoliad 2A ("P") y mae rheoliad 6AB(1) yn gymwys iddo.[4]~~

(2) ~~Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo P yn methu â chymryd prawf diwrnod 2.~~

(3) ~~Pan fo paragraff (2) yn gymwys, mae P i'w drin fel pe bai gofynion rheoliad 7 yn gymwys a rhaid i P ynysu a pharhau i ynysu yn unol â'r rheoliad hwnnw tan ddiwrnod olaf y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod yr oedd P mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3 y tu allan i'r ardal deithio gyffredin[2] ddiwethaf.~~

~~[(3) Pan fo paragraff (2) yn gymwys, diwrnod ynysu olaf P o dan reoliad 7 neu 8 yw diwrnod olaf y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod yr oedd P mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt ddiwethaf (ac nid yw rheoliad 12 yn gymwys at ddibenion pennu diwrnod ynysu olaf P).[6]~~

(3) ~~Pan fo paragraff (2) yn gymwys, mae P i'w drin fel pe bai gofynion rheoliad 7 neu 8 (yn ôl y digwydd) yn gymwys a rhaid i P ynysu a pharhau i ynysu yn unol â'r rheoliad hwnnw tan ddiwrnod olaf y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod yr oedd P mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt ddiwethaf (ac nid yw rheoliad 12 yn gymwys at ddibenion pennu diwrnod ynysu olaf P).][9]~~

(4) ~~Pan fo paragraff (2) yn gymwys ond bod P yn cymryd prawf y mae paragraff (5) yn gymwys iddo wedi hynny a—~~

(a) ~~bod y canlyniad yn bositif, mae rheoliad 6E yn gymwys fel pe bai'r prawf wedi ei gymryd yn unol â rheoliad 6AB;~~

(b) ~~bod y canlyniad yn negyddol, nid yw'n ofynnol i P ynysu yn unol â rheoliad 7 rheoliadau 7 neu 8[7] mwyach.~~

(5) ~~Mae'r paragraff hwn yn gymwys i brawf—~~

(a) ~~sy'n cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer prawf diwrnod 2 ym mharagraff 1 o Atodlen 1C yn rheoliad 6AB(2)(a)(ii)[5],~~

(a) ~~sy'n brawf diwrnod 2,[8]~~

(a) ~~sy'n cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer prawf diwrnod 2 yn rheoliad 6AB(2)(a)(ii),[10]~~

(b) ~~a drefnir yn unol â rheoliad 6AB(5), ac~~

(c) ~~sy'n cael ei gymryd o fewn 10 niwrnod i'r diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru.~~

~~Nodiadau:~~

| | |
|---|---|
| 1 | Amnewidiwyd gan reoliad 6(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021 (4.00am 19/07/21) |
| 2 | Amnewidiwyd gan reoliad 6(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021 (4.00am 19/07/21) |
| 3 | Hepgorwyd gan reoliad 5(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 31/10/21) |
| 4 | Amnewidiwyd gan reoliad 5(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 31/10/21) |
| 5 | Amnewidiwyd gan reoliad 5(4) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 31/10/21) |
| 6 | Amnewidiwyd gan reoliad 5(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21) |
| 7 | Amnewidiwyd gan reoliad 5(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21) |
| 8 | Amnewidiwyd gan reoliad 5(4) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21) |
| 9 | Amnewidiwyd gan reoliad 6(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 (4.00am 09/01/22) |
| 10 | Amnewidiwyd gan reoliad 6(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 (4.00am 09/01/22) |

**6E. Goblygiadau canlyniad prawf positif**

Pan fo prawf a gymerir gan berson ("P") yn unol â rheoliad 6AB yn bositif—

(a) pan fo P yn berson—

(i) y mae rheoliad 7(1) neu 8(1) yn gymwys iddo, diwrnod ynysu olaf P o dan reoliad 7 neu 8 yw diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cymerodd P y prawf (ac nid yw rheoliad 12 yn gymwys at ddibenion pennu diwrnod ynysu olaf P), neu

(ii) nad yw rheoliad 7(1) neu 8(1) yn gymwys iddo, mae P i'w drin fel pe bai gofynion rheoliad 7 yn gymwys a rhaid i P ynysu a pharhau i ynysu yn unol â'r rheoliad hwnnw tan ddiwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cymerodd P y prawf, a

(b) nid yw rheoliad 10(3) (gofyniad i ynysu yn peidio â bod yn gymwys i P pan fydd P yn gadael Cymru) o'r Rheoliadau hyn ac, yn ddarostyngedig i reoliad 6I, rheoliad 6 neu 7, fel y bo'n briodol, o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru)(**22**) 2020 yn gymwys mewn perthynas â P.

**6E. Goblygiadau canlyniad prawf positif**

(1) Pan fo prawf a gymerir gan berson ("P") yn unol â rheoliad 6AB yn bositif ac—

(a) bo P yn berson y mae rheoliad 7(1) neu 8(1) yn gymwys iddo, mae paragraffau (2) a (7) yn gymwys;

[(b) bo P yn deithiwr rheoliad 2A—

(i) pan fo'r prawf yn brawf PCR diwrnod 2, mae paragraffau (3) a (7) yn gymwys;

(22) O.S. 2020/1609 (Cy. 335).

(ii) pan fo'r prawf yn brawf LFD diwrnod 2, mae paragraffau (4), (5) a (7) yn gymwys.][2]

(c) bo P yn deithiwr rheoliad 2A—

(i) pan fo'r prawf yn brawf PCR diwrnod 2, mae paragraffau (6A) a (7) yn gymwys;

(ii) pan fo'r prawf yn brawf LFD diwrnod 2, mae paragraffau (6B), (6C) a (7) yn gymwys.[5]

(2) Diwrnod ynysu olaf P o dan reoliad 7 neu 8 yw diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cymerodd P y prawf (ac nid yw rheoliad 12 yn gymwys at ddibenion pennu diwrnod ynysu olaf P).

[(3) Mae P i'w drin fel pe bai gofynion rheoliad 7 yn gymwys a rhaid i P ynysu a pharhau i ynysu yn unol â'r rheoliad hwnnw tan ddiwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cymerodd P y prawf.

(4) Rhaid i P, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, gymryd prawf cadarnhau a ddarperir gan Weinidogion Cymru at ddibenion y paragraff hwn.

(5) Mae P i'w drin fel pe bai gofynion rheoliad 7 yn gymwys a rhaid i P ynysu a pharhau i ynysu yn unol â'r rheoliad hwnnw tan y cynharaf o'r canlynol—

(a) diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cymerodd P y prawf LFD diwrnod 2;

(b) yr adeg yr hysbysir P bod canlyniad y prawf cadarnhau a gymerwyd yn unol â pharagraff (4) yn negyddol.

(6) Yn y rheoliad hwn, bernir bod person yn cael hysbysiad o ganlyniad mewn perthynas â phrawf LFD diwrnod 2 pan fydd y person yn penderfynu ar y canlyniad yn unol â chyfarwyddiadau defnyddio gweithgynhyrchydd y prawf.][3]

(6A) Mae P i'w drin fel pe bai gofynion rheoliad 7 yn gymwys a rhaid i P ynysu a pharhau i ynysu yn unol â'r rheoliad hwnnw tan ddiwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cymerodd P y prawf.

(6B) Rhaid i P, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, gymryd prawf cadarnhau a ddarperir gan Weinidogion Cymru at ddibenion y paragraff hwn.

(6C) Mae P i'w drin fel pe bai gofynion rheoliad 7 yn gymwys a rhaid i P ynysu a pharhau i ynysu yn unol â'r rheoliad hwnnw tan y cynharaf o'r canlynol—

(a) diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cymerodd P y prawf LFD diwrnod 2;

(b) yr adeg yr hysbysir P bod canlyniad y prawf cadarnhau a gymerwyd yn unol â pharagraff (6B) yn negyddol.

(6D) Yn y rheoliad hwn, bernir bod person yn cael hysbysiad o ganlyniad mewn perthynas â phrawf LFD diwrnod 2 pan fydd y person yn penderfynu ar y canlyniad yn unol â chyfarwyddiadau defnyddio gweithgynhyrchydd y prawf.[6]

(7) Nid yw rheoliad 10(3) (gofyniad i ynysu yn peidio â bod yn gymwys i P pan fydd P yn gadael Cymru) o'r Rheoliadau hyn ac, yn ddarostyngedig i reoliad 6I, rheoliad 6 neu 7, fel y bo'n briodol, o'r Rheoliadau Cyfyngiadau Coronafeirws yn gymwys mewn perthynas â P.

[(8) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "prawf LFD diwrnod 2" yw prawf o fewn ystyr rheoliad 6AB(2)(a)(ii)(bb);

ystyr "prawf PCR diwrnod 2" yw prawf o fewn ystyr rheoliad 6AB(2)(a)(ii)(aa).[4]][1]

(8) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "prawf LFD diwrnod 2" yw prawf o fewn ystyr rheoliad 6AB(2)(a)(ii)(bb)

ystyr "prawf PCR diwrnod 2" yw prawf o fewn ystyr rheoliad 6AB(2)(a)(ii)(aa).[7]

~~Nodiadau:~~

~~1 Amnewidiwyd gan reoliad 6 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 31/10/21)~~

~~2 Hepgorwyd gan reoliad 6(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21)~~

~~3 Hepgorwyd gan reoliad 6(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21)~~

~~4 Hepgorwyd gan reoliad 6(4) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21)~~

~~5 Mewnosodwyd gan reoliad 7(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 (4.00am 09/01/22)~~

~~6 Mewnosodwyd gan reoliad 7(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 (4.00am 09/01/22)~~

~~7 Mewnosodwyd gan reoliad 7(4) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 (4.00am 09/01/22)~~

### ~~6F. Goblygiadau canlyniad positif i berson sy'n preswylio yn yr un fangre~~

~~(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo prawf a gymerir gan berson ("P") yn unol â rheoliad 6AB yn bositif a bod P yn preswylio gyda pherson arall ("A") —~~

~~(a) sydd o dan ofyniad i ynysu o dan reoliad 7 neu 8, a~~

~~(b) y byddai ei ddiwrnod ynysu olaf, oni bai am y rheoliad hwn, yn cael ei bennu yn unol â rheoliad 12.~~

~~(2) Diwrnod ynysu olaf A o dan reoliad 7 neu 8 yw diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cymerodd P y prawf (ac nid yw rheoliad 12 yn gymwys at ddibenion pennu diwrnod ynysu olaf A).~~

~~(3) Ond nid yw hyn yn gymwys pan fo —~~

~~(a) y prawf positif y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(b) yn brawf diwrnod 8 a gymerwyd gan P yn unol â rheoliad 6AB a~~

~~(b) A wedi cael canlyniad positif i brawf diwrnod 2 a gymerodd A yn unol â rheoliad 6AB.~~

### ~~6G. Goblygiadau peidio â chael canlyniad prawf diwrnod 8 cyn diwedd y cyfnod ynysu~~

~~(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo person ("P") —~~

~~(a) yn cymryd prawf diwrnod 2 a phrawf diwrnod 8 yn unol â rheoliad 6AB~~

~~(b) yn cael canlyniad negyddol i'r prawf diwrnod 2, ac~~

~~(c) heb gael canlyniad y prawf diwrnod 8 cyn diwedd diwrnod ynysu olaf P o dan reoliad 7 neu 8 (fel y'i pennir o dan reoliad 12).~~

~~(2) Os yw canlyniad prawf diwrnod 8 P yn negyddol, diwrnod ynysu olaf P o dan reoliad 7 neu 8 yw'r diwrnod y mae P yn cael canlyniad y prawf diwrnod 8 (ac nid yw rheoliad 12 yn gymwys at ddibenion pennu diwrnod ynysu olaf P).~~

~~(3) Ac eithrio pan fo paragraff (2) yn gymwys, diwrnod ynysu olaf P o dan reoliad 7 neu 8 yw diwrnod olaf y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod yr oedd P mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt ddiwethaf (ac nid yw rheoliad 12 yn gymwys at ddibenion pennu diwrnod ynysu olaf P).~~

**6HA. Goblygiadau cael canlyniad prawf amhendant: teithwyr o wledydd a thiriogaethau nad ydynt yn esempt**

(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn cysylltiad â pherson ("P") y mae rheoliadau 6AB(1) a naill ai 7(1) neu 8(1) yn gymwys iddo rheoliad 6AB(1) yn gymwys iddo ac nad yw rheoliad 2A yn gymwys iddo[1].

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo canlyniad prawf a gymerir gan P yn unol â rheoliad 6AB yn amhendant.

(3) Pan fo paragraff (2) yn gymwys, diwrnod ynysu olaf P o dan reoliad 7 neu 8 yw—

(a) diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cymerodd P y prawf, neu

(b) pan fo P yn cymryd prawf y mae paragraff (5) yn gymwys iddo a bod canlyniad y prawf yn negyddol, y diweddaraf o'r canlynol—

(i) diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod yr oedd P mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt ddiwethaf, neu

(ii) y diwrnod y mae P yn cael y canlyniad negyddol, neu

(c) pan fo P yn cymryd prawf y mae paragraff (5) yn gymwys iddo a bod canlyniad y prawf yn bositif, diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cymerodd P y prawf.

(4) Pan fo paragraff (3)(c) yn gymwys, nid yw'n ofynnol i P gymryd y prawf diwrnod 8 yn unol â rheoliad 6AB.

(5) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i—

(a) prawf diwrnod 8 a gymerir yn unol â rheoliad 6AB;

(b) prawf—

(i) sy'n cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer prawf diwrnod 8 ym mharagraff 2 o Atodlen 1C,

(ii) a drefnir yn unol â rheoliad 6AB(5), a

(iii) sy'n cael ei gymryd—

(aa) cyn diwedd cyfnod ynysu P fel y byddai wedi ei bennu o dan reoliad 12 pe na bai paragraff (1) yn gymwys, ond

(bb) cyn diwedd y seithfed diwrnod ar ôl y diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.

Nodiadau:

[1] Amnewidiwyd gan reoliad 7 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21)

[4] Hepgorwyd gan reoliad 6(4) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21)

**6HB. Goblygiadau cael canlyniad prawf amhendant: teithwyr o wledydd a thiriogaethau esempt Goblygiadau cael canlyniad prawf amhendant: teithwyr [o wledydd a thiriogaethau esempt a theithwyr][3] rheoliad 2A][1]**

(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn cysylltiad â pherson ("P") y mae rheoliad 6AB(1) yn gymwys iddo ond nad yw rheoliad 7(1) na 8(1) yn gymwys iddo.

(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i deithiwr rheoliad 2A ("P") y mae rheoliad 6AB(1) yn gymwys iddo.[4]

~~(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo canlyniad prawf a gymerir gan P yn unol â rheoliad 6AB yn amhendant.~~

~~(3) Pan fo paragraff (2) yn gymwys, mae P i'w drin fel pe bai gofynion rheoliad 7 yn gymwys a rhaid i P ynysu a pharhau i ynysu yn unol â'r rheoliad hwnnw tan ddiwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod yr oedd P mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3 y tu allan i'r ardal deithio gyffredin[2] ddiwethaf.~~

~~(3) Pan fo paragraff (2) yn gymwys, diwrnod ynysu olaf P o dan reoliad 7 neu 8 yw diwrnod olaf y cyfnod o [14 o ddiwrnodau 10 niwrnod[9]] sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod yr oedd P mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt ddiwethaf (ac nid yw rheoliad 12 yn gymwys at ddibenion pennu diwrnod ynysu olaf P).[6]~~

~~(3) Pan fo paragraff (2) yn gymwys, mae P i'w drin fel pe bai gofynion rheoliad 7 neu 8 (yn ôl y digwydd) yn gymwys a rhaid i P ynysu a pharhau i ynysu yn unol â'r rheoliad hwnnw tan ddiwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod yr oedd P mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt ddiwethaf (ac nid yw rheoliad 12 yn gymwys at ddibenion pennu diwrnod ynysu olaf P).[10]~~

~~(4) Pan fo paragraff (2) yn gymwys ond bod P yn cymryd prawf y mae paragraff (5) yn gymwys iddo wedi hynny a—~~

~~(a) bod y canlyniad yn bositif, mae rheoliad 6E yn gymwys fel pe bai'r prawf wedi ei gymryd yn unol â rheoliad 6AB;~~

~~(b) bod y canlyniad yn negyddol, nid yw'n ofynnol i P ynysu yn unol â rheoliad 7 rheoliadau 7 neu 8[7] mwyach.~~

~~(5) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i brawf—~~

~~(a) sy'n cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer prawf diwrnod 2 ym mharagraff 1 o Atodlen 1C yn rheoliad 6AB(2)(a)(ii)[5],~~

~~(a) sy'n brawf diwrnod 2[8]~~

~~(a) sy'n cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer prawf diwrnod 2 yn rheoliad 6AB(2)(a)(ii).[11]~~

~~(b) a drefnir yn unol â rheoliad 6AB(5), ac~~

~~(c) sy'n cael ei gymryd o fewn 10 niwrnod i'r diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru.~~

~~Nodiadau:~~

~~1 Amnewidiwyd gan reoliad 7(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021 (4.00am 19/07/21)~~

~~2 Amnewidiwyd gan reoliad 7(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021 (4.00am 19/07/21)~~

~~3 Hepgorwyd gan reoliad 7(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 31/10/21)~~

~~4 Amnewidiwyd gan reoliad 7(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 31/10/21)~~

~~5 Amnewidiwyd gan reoliad 7(4) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 31/10/21)~~

~~6 Amnewidiwyd gan reoliad 8(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21)~~

~~7 Amnewidiwyd gan reoliad 8(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21)~~

~~8 Amnewidiwyd gan reoliad 8(4) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21)~~

9 Amnewidiwyd gan reoliad 3 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) 2021 (8.00pm 01/12/21)

10 Amnewidiwyd gan reoliad 8(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 (4.00am 09/01/22)

11 Amnewidiwyd gan reoliad 8(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 (4.00am 09/01/22)

## 6I. Profion ac eithrio yn unol â'r Rheoliadau hyn

(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo—

(a) P yn cymryd prawf diwrnod 2 sy'n negyddol

(b) tra bo P yn ynysu yn unol â rheoliad 7 neu 8, mae P yna'n cymryd prawf ac eithrio yn unol â'r Rheoliadau hyn, ac

(c) hysbysir P bod y prawf yn bositif.

(2) Mae'n peidio â bod yn ofynnol i P ynysu yn unol â'r Rheoliadau hyn, ac mae rheoliad 6 neu 7, fel y bo'n briodol, o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 yn gymwys mewn perthynas â P.

## 6J. Codi tâl am brofion

(1) Caiff Gweinidogion Cymru neu berson a ddynodir gan Weinidogion Cymru osod tâl mewn cysylltiad â phrofion diwrnod 2 neu brofion diwrnod 8 a ddarperir gan ddarparwr prawf cyhoeddus[5].

(2) O ran Gweinidogion Cymru—

(a) rhaid iddynt gyhoeddi manylion y taliadau mewn ffordd y maent yn ystyried ei bod yn briodol, a

(b) cânt adennill unrhyw swm sy'n ddyledus gan berson yn unol â thâl fel dyled.

Nodiadau:

1 Mewnosodwyd gan reoliad 5 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Hysbysu) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (21/09/21)

## 6K. Profi'r gweithlu

(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i berson ("P"), a bennir ym mharagraff 6 o Atodlen 2 neu reoliad 12E(2)(g).

(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i berson ("P") sy'n 5 oed neu drosodd—

(a) sy'n cyrraedd Cymru,

(b) sydd, o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, wedi bod y tu allan i'r ardal deithio gyffredin, ac

(c) sy'n berson a bennir yn—

(i) paragraff 6 o Atodlen 2, neu

(ii) rheoliad 12E(2)(g).[1]

(1A) Rhaid i P gymryd prawf gweithlu ar gyfer diwrnod 2 yn unol â pharagraff (6)—

(a) pan fo P yn deithiwr rheoliad 2A, neu

(b) pan na fo P wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.[2]

(2) Pan na fo paragraff (1A) yn gymwys,[3] Rhaid i P gymryd prawf gweithlu ar gyfer diwrnod 2, diwrnod 5 a diwrnod 8 yn unol â pharagraff (6) mewn perthynas â phob categori o brawf.

(3) Pan na fo P yn cymryd prawf gweithlu fel sy'n ofynnol gan y rheoliad hwn am fod ganddo esgus rhesymol, rhaid i P, cyn gynted ag y bo'n ymarferol pan na fydd y materion sy'n arwain at yr esgus rhesymol yn gymwys mwyach, gymryd prawf gweithlu arall.

(4) Pan fo prawf gweithlu arall wedi ei gymryd yn lle—

(a) prawf gweithlu sydd i'w gymryd ar gyfer diwrnod 2, mae P i'w drin fel pe bai wedi cymryd prawf gweithlu ar ddiwrnod 2 yn unol â'r rheoliad hwn;

(b) prawf gweithlu sydd i'w gymryd ar gyfer diwrnod 5, mae P i'w drin fel pe bai wedi cymryd prawf gweithlu ar ddiwrnod 5 yn unol â'r rheoliad hwn;

(c) prawf gweithlu sydd i'w gymryd ar gyfer diwrnod 8, mae P i'w drin fel pe bai wedi cymryd prawf gweithlu ar ddiwrnod 8 yn unol â'r rheoliad hwn.

(5) Mae Atodlen 2D yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch profion gweithlu (gan gynnwys goblygiadau profi).

(6) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "prawf gweithlu arall" yw prawf gweithlu sy'n cydymffurfio â'r gofynion sy'n gymwys i'r prawf gweithlu nas cynhaliwyd;

(b) ystyr "prawf gweithlu" yw prawf ar gyfer canfod y coronafeirws[4] a ddarperir neu a weinyddir o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

(c) ystyr "prawf gweithlu sydd i'w gymryd ar gyfer diwrnod 2" yw prawf sy'n cael ei gymryd yn ddim hwyrach na diwedd yr ail ddiwrnod ar ôl y diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru;

(d) ystyr "prawf gweithlu sydd i'w gymryd ar gyfer diwrnod 5" yw prawf gweithlu—

(iii) sy'n cael ei gymryd ar ôl prawf gweithlu ar gyfer diwrnod 2,

(iv) sy'n cael ei gymryd yn ddim cynharach na diwedd yr ail ddiwrnod ar ôl y diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru, a

(v) sy'n cael ei gymryd cyn diwedd y pumed diwrnod ar ôl y diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru;

(e) ystyr "prawf gweithlu sydd i'w gymryd ar gyfer diwrnod 8" yw prawf gweithlu—

(i) sy'n cael ei gymryd ar ôl prawf gweithlu sy'n cael ei gymryd ar gyfer diwrnod 5,

(ii) sy'n cael ei gymryd yn ddim cynharach na diwedd y pedwerydd diwrnod ar ôl y diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru, a

(iii) sy'n cael ei gymryd cyn diwedd yr wythfed diwrnod ar ôl y diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru.

Nodiadau:

[1] Amnewidiwyd gan reoliad 8(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021 (4.00am 19/07/21)

[2] Mewnosodwyd gan reoliad 8(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021 (4.00am 19/07/21)

[3] Mewnosodwyd gan reoliad 8(4) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021 (4.00am 19/07/21)

| | |
|---|---|
| 4 | ~~Mewnosodwyd gan reoliad 8(5) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021 (4.00am 19/07/21)~~ |

**~~6L. Profi o ran digwyddiadau penodedig~~**

~~(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i berson ("P") sy'n 5 oed neu drosodd—~~

~~(a) sy'n cyrraedd Cymru,~~

~~(b) sydd wedi bod y tu allan i'r ardal deithio gyffredin o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, ac~~

~~(c) sy'n berson perthnasol mewn digwyddiad penodedig.~~

~~(2) Rhaid i P gymryd prawf digwyddiad ar gyfer diwrnod 2 yn unol â pharagraff (9)—~~

~~(a) pan fo P yn deithiwr rheoliad 2A, neu~~

~~(b) pan na fo P wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.~~

~~(3) Pan na fo paragraff (2) yn gymwys, rhaid i P gymryd prawf digwyddiad ar gyfer diwrnod 2 a diwrnod 8 yn unol â pharagraff (9) mewn perthynas â phob categori o brawf.~~

~~(4) Pan na fo P yn cymryd prawf digwyddiad fel sy'n ofynnol gan y rheoliad hwn am fod ganddo esgus rhesymol, rhaid i P, cyn gynted ag y bo'n ymarferol pan na fydd y materion sy'n arwain at yr esgus rhesymol yn gymwys mwyach, gymryd prawf digwyddiad arall.~~

~~(5) Pan fo prawf digwyddiad arall wedi ei gymryd yn lle—~~

~~(a) prawf digwyddiad sydd i'w gymryd ar gyfer diwrnod 2, mae P i'w drin fel pe bai wedi cymryd prawf digwyddiad ar ddiwrnod 2 yn unol â'r rheoliad hwn;~~

~~(b) prawf digwyddiad sydd i'w gymryd ar gyfer diwrnod 8, mae P i'w drin fel pe bai wedi cymryd prawf digwyddiad ar ddiwrnod 8 yn unol â'r rheoliad hwn.~~

~~(6) Mae rheoliadau 6DA i 6HB yn gymwys i berson sy'n ddarostyngedig i'r rheoliad hwn fel pe bai—~~

~~(a) cyfeiriadau at reoliad 6AB a 6AB(1) yn gyfeiriadau at reoliad 6L a 6L(1) yn y drefn honno;~~

~~(b) cyfeiriadau at brawf diwrnod 2 yn gyfeiriadau at brawf digwyddiad a gymerir ar gyfer diwrnod 2;~~

~~(c) cyfeiriadau at brawf diwrnod 8 yn gyfeiriadau at brawf digwyddiad a gymerir ar gyfer diwrnod 8;~~

~~(d) y canlynol wedi ei roi yn lle rheoliad 6DB(5)—~~

~~"(5) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i brawf digwyddiad arall.";~~

~~(e) y canlynol wedi ei roi yn lle rheoliad 6HA(5)—~~

~~"(5) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i brawf digwyddiad arall."~~

~~(7) Pan fo prawf digwyddiad yn cynhyrchu canlyniad amhendant, rhaid i P, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, gymryd prawf digwyddiad pellach ac mae'r prawf digwyddiad pellach hwnnw i'w drin fel prawf digwyddiad arall.~~

~~(8) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am drefnu digwyddiad penodedig—~~

~~(a) cymryd camau rhesymol i hwyluso cymryd profion digwyddiadau gan berson perthnasol mewn perthynas â'r digwyddiad penodedig y mae'n gyfrifol amdano;~~

~~(b) rhoi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru at ddibenion is-baragraff (a).~~

~~(9) Yn y rheoliad hwn—~~

~~ystyr "digwyddiad penodedig" ("*a specified event*") yw digwyddiad a restrir yn Atodlen 1E;~~

~~ystyr "person perthnasol" ("*relevant person*") mewn perthynas â digwyddiad penodedig yw—~~

~~(a) person sy'n cyfranogi yn y digwyddiad i ennill bywoliaeth;~~

~~(b) unigolyn sy'n hanfodol i redeg y digwyddiad, gan gynnwys—~~

~~(i) staff gweithredol sy'n hanfodol i redeg y digwyddiad;~~

~~(ii) swyddogion y digwyddiad;~~

~~(iii) dyfarnwyr;~~

~~(iv) staff darlledu a newyddiadurwyr sy'n rhoi sylw i'r digwyddiad;~~

~~(c) unigolyn sy'n hanfodol i gefnogi person a ddisgrifir ym mharagraff (a), gan gynnwys—~~

~~(i) staff meddygol, logistaidd, technegol a gweinyddol;~~

~~(ii) rhiant neu ofalwr person o'r fath, pan fo'r person hwnnw o dan 18 oed;~~

~~ystyr "prawf digwyddiad" ("an event test") yw prawf ar gyfer canfod y coronafeirws;~~

~~ystyr "prawf digwyddiad arall" ("a replacement event test") yw prawf digwyddiad sy'n cydymffurfio â'r gofynion sy'n gymwys i'r prawf digwyddiad nas cynhaliwyd neu a ddarparodd ganlyniad amhendant;~~

~~ystyr "prawf digwyddiad a gymerir ar gyfer diwrnod 2" ("an event test undertaken for day 2") yw prawf sy'n cael ei gymryd yn ddim hwyrach na diwedd yr ail ddiwrnod ar ôl y diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru;~~

~~ystyr "prawf digwyddiad a gymerir ar gyfer diwrnod 8" ("an event test undertaken for day 8") yw prawf digwyddiad sy'n cael ei gymryd cyn diwedd yr wythfed diwrnod ar ôl y diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru.~~

~~(10) Yn y rheoliad hwn, wrth ystyried a yw person yn ennill bywoliaeth o gyfranogi mewn digwyddiad, mae unrhyw daliad a wneir er budd person o ganlyniad i'w gyfranogiad i'w gymryd i ystyriaeth, gan gynnwys taliad ar ffurf cyflog, arian gwobrwyo neu drwy drefniant contractiol o unrhyw fath arall.~~[1]

~~Nodiadau:~~

~~[1] Mewnosodwyd gan reoliad 9 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021 (4.00am 19/07/21)~~

## ~~RHAN 3~~

## ~~Gofyniad i ynysu etc.~~

### ~~7. Gofyniad i ynysu: cyrraedd o fan y tu allan i'r Deyrnas Unedig~~

~~(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i berson ("P")—~~

~~(a) sy'n cyrraedd Cymru ar long neu awyren o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu~~

~~(b) sydd—~~

(i) yn cyrraedd Cymru ar long neu awyren o wlad neu diriogaeth nad yw'n rhan o'r Deyrnas Unedig, a

(ii) sydd wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt o fewn y cyfnod o 10 o ddiwrnodau sy'n dod i ben ar y diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.

(2) Rhaid i P—

(a) teithio'n uniongyrchol i fangre benodol yng Nghymru sy'n addas i P breswylio ynddi tan ddiwedd diwrnod olaf ynysiad P, neu

(b) teithio'n uniongyrchol i ran o'r Deyrnas Unedig heblaw Cymru.

(3) Pan fo P yn teithio i fangre benodol yng Nghymru i breswylio ynddi, fel sy'n ofynnol gan baragraff (2)(a), ni chaniateir i P adael na bod y tu allan i'r fangre cyn diwedd diwrnod olaf ynysiad P—

(a) onid yw wedi ei awdurdodi i wneud hynny gan reoliad 10(4) (gadael y fangre dros dro), neu

(b) onid yw'r paragraff hwn yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas â P yn rhinwedd rheoliad 10(3) (gadael Cymru).

(4) At ddibenion paragraffau (2) a (3), y fangre benodol yw—

(a) y fangre a bennir yng ngwybodaeth am deithiwr P fel y fangre y mae P yn bwriadu preswylio ynddi at ddibenion y rheoliad hwn (oni fo is-baragraff (d) yn gymwys i P);

(b) pan fo P yn berson a ddisgrifir—

(i) ym mharagraff 1(1)(a) i (k) o Atodlen 2 nad yw wedi bodloni'r amodau ym mharagraff 1(2) o'r Atodlen honno, neu

(ii) paragraff 1(1)(l) o'r Atodlen honno,

mangre y mae P yn bwriadu preswylio ynddi at ddibenion y rheoliad hwn;

(c) pan na fo gwybodaeth am deithiwr P yn pennu'r fangre y mae P yn bwriadu preswylio ynddi at ddibenion y rheoliad hwn, y fangre a drefnwyd gan P o dan baragraff (5);

(d) pan fo P yn ddarostyngedig i ofyniad a osodir o dan neu yn rhinwedd y Deddfau Mewnfudo i breswylio mewn mangre arbennig yng Nghymru, y fangre honno.

(5) Pan na fo gwybodaeth am deithiwr P yn pennu'r fangre y mae P yn bwriadu preswylio ynddi at ddibenion y rheoliad hwn, rhaid i P—

(a) wneud trefniadau cyn gynted a bo'n rhesymol ymarferol i breswylio mewn mangre yng Nghymru sy'n addas i breswylio ynddi tan ddiwedd diwrnod olaf ynysiad P, a

(b) hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol yn electronig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol o gyfeiriad y fangre honno gan ddefnyddio cyfleuster a ddarparwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol at y diben hwnnw.

(6) Ond pan fo P wedi cyrraedd Cymru drwy borthladd, rhaid i P gydymffurfio â gofynion paragraff (5) cyn i P adael y porthladd.

(7) Pan fo paragraff (5) yn gymwys, rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu'r cynorthwy, neu drefnu darpariaeth o'r cynhorthwy, y maent yn ystyried yn angenrheidiol (os o gwbl) i sicrhau y gall P wneud y trefniadau a grybwyllir ym mharagraff (5)(a).

**8. Gofyniad i ynysu: cyrraedd o ran arall o'r Deyrnas Unedig**

(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i berson ("P")—

(a) sy'n cyrraedd Cymru o rywle arall yn y Deyrnas Unedig, a

(b) sydd o fewn y cyfnod o 10 o diwrnod sy'n dod i ben ar y diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt;

(2) Ond nid yw cyfeiriadau at P yn cynnwys—

(a) person—

(i) sy'n cyrraedd Cymru at ddiben dychwelyd i'r fangre yng Nghymru y mae'r person yn preswylio ynddi at ddibenion rheoliad 7(3); a

(ii) person a adawodd Cymru dros dro, am un neu ragor o'r resymau a awdurdodir yn rheoliad 10(4);

(b) person—

(i) y mae'n ofynnol iddo breswylio mewn mangre yn rhywle arall yn y Deyrnas Unedig o dan ddarpariaeth mewn Rheoliadau a wneir mewn perthynas â Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon (yn ôl y digwydd) sy'n cyfateb i'r Rheoliadau hyn,

(ii) y caniateir iddo adael y rhan arall honno o'r Deyrnas Unedig dros dro yn rhinwedd y Rheoliadau hynny, a

(iii) sy'n aros yng Nghymru am ddim hwy nag sy'n angenrheidiol.

(c) person—

(i) nad yw'n ofynnol iddo ynysu mwyach o dan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Lloegr) 2020(**23**) yn rhinwedd rheoliad 4(13A) o'r Rheoliadau hynny,

(ii) sydd yng Nghymru am un neu ragor o'r rhesymau a restrir yn rheoliad 10(4)(b) i (k) o'r Rheoliadau hyn, a

(iii) sy'n aros yng Nghymru am ddim hwy nag sy'n angenrheidiol.

(3) O ran P—

(a) rhaid iddo deithio'n uniongyrchol i fangre yng Nghymru sy'n addas i P breswylio ynddi tan ddiwedd diwrnod olaf ynysiad P, a

(b) ni chaiff adael y fangre na bod y tu allan iddi cyn diwedd diwrnod olaf ynysiad P—

(i) onid yw wedi ei awdurdodi gan reoliad 10(4) (gadael y fangre dros dro) i wneud hynny, neu

(ii) onid yw'r paragraff hwn yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas â P yn rhinwedd rheoliad 10(3) (gadael Cymru).

(4) Rhaid i P hefyd—

(a) cyn cyrraedd Cymru, neu

(b) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyrraedd Cymru,

hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol yn electronig am gyfeiriad y fangre y mae P yn bwriadu preswylio ynddi at ddibenion paragraff (3) gan ddefnyddio cyfleuster a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol at y diben hwnnw.

**9. Gofynion ynysu: esemptiadau**

(1) At ddibenion y Rhan hon, ystyr "gwlad neu diriogaeth esempt" yw—

(a) gwlad neu diriogaeth o fewn yr ardal deithio gyffredin;

(**23**) O.S. 2020/568, a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1337; mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

(b) gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3;

ac mae unrhyw gyfeiriad at "gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt" i'w ddehongli yn unol â hynny.[1]

(2) Nid yw rheoliad 7 ac 8 yn gymwys i berson a ddisgrifir—

(a) ym mharagraff 1(1)(a) i (k) o Atodlen 2 sy'n bodloni'r amodau ym mharagraff 1(2) o'r Atodlen honno;

(b) ym mharagraff 2 i 5, 6A to 16 ac 36 o Atodlen 2.

(ba) yn ddarostyngedig i baragraff (3), ym mharagraff 6 o Atodlen 2;

(c) person a ddisgrifir yn ddarostyngedig i baragraff (3), yn rheoliad 12E(2)(a) i (d) (mesurau ychwanegol sy'n gymwys i bersonau sy'n teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A).

(2) Nid yw rheoliadau 7 ac 8 yn gymwys i—

(a) person a ddisgrifir ym mharagraff 1(1)(a) i (k) o Atodlen 2 sy'n bodloni'r amodau ym mharagraff 1(2) o'r Atodlen honno;

(aa) person a ddisgrifir ym mharagraff 1(1)(a), (b), (h) neu (k) o Atodlen 2, neu aelod o'r teulu sy'n ffurfio rhan o aelwyd person o'r fath;

(bb) person a ddisgrifir ym mharagraff 1(1)(c), (d), (e), (f), (g), (i) neu (j) o Atodlen 2, neu aelod o'r teulu sy'n ffurfio rhan o aelwyd person o'r fath, ac sy'n bodloni'r amodau ym mharagraff 1(2) o'r Atodlen honno;[3]

(b) person a ddisgrifir ym mharagraffau [2 i 5, 6A i 16 2 i 16[4]] a 36 o Atodlen 2;

(c) yn ddarostyngedig i baragraff (3), person a ddisgrifir ym mharagraff 6 o Atodlen 2;[5]

(d) [yn ddarostyngedig i baragraff (3),[6]] person a ddisgrifir yn rheoliad 12E(2)(a) i (d) (mesurau ychwanegol sy'n gymwys i bersonau sy'n teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A);

[(e) teithiwr rheoliad 2A.[8]][2]

(f) plentyn sydd o dan 5 oed pan fo'n cyrraedd Cymru;

(g) teithiwr rheoliad 2A.[9]

(3) Mae rheoliadau 7 ac 8 yn gymwys i berson ("P") a ddisgrifir ym mharagraff 6 o Atodlen 2 yn unol â pharagraffau (4) i (6).

(4) Pan fo P yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 6(d)(i) (gyrrwr cerbydau nwyddau) y fangre y mae rhaid i'r person ynysu ynddi at ddibenion gofyniad ynysu (o fewn yr ystyr yn rheoliad 10(2)) yw—

(a) yn y cerbyd nwyddau pan fydd yn ymgymryd â'r gwaith a ddisgrifir yn y paragraff hwnnw,

(b) yn y cerbyd nwyddau pan na fydd yn ymgymryd â'r gwaith a ddisgrifir yn y paragraff hwnnw os yw P yn teithio ar ei ben ei hun mewn cerbyd nwyddau gyda chompartment y tu ôl i sedd y gyrrwr y bwriedir ei ddefnyddio ar gyfer cysgu ("cab cysgu"), yn ddarostyngedig i baragraff (c)(ii),

(c) mewn gwesty, hostel neu lety gwely a brecwast pan na fydd yn ymgymryd â'r gwaith a ddisgrifir yn y paragraff hwnnw—

(i) os yw P yn teithio mewn cerbyd nwyddau heb gab cysgu, neu

(ii) pe bai ynysu mewn cerbyd nwyddau yn torri Erthygl 8 o Reoliad (EC) Rhif 561/2006 Senedd Ewrop a'r Cygnor ar gysoni deddfwriaeth gymdeithasol benodol sy'n ymwneud â thrafnidiaeth ffyrdd(**24**),

(d) yn y cerbyd nwyddau neu mewn gwesty, hostel neu lety gwely a brecwast pan na fydd yn ymgymryd â'r gwaith a ddisgrifir yn y paragraff hwnnw os yw P yn teithio gyda pherson arall mewn cerbyd nwyddau gyda chab cysgu.

(5) Pan fo P yn berson sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig, nid yw paragraff (4) ond yn gymwys pan fydd yn ymgymryd â'r gwaith a ddisgrifir ym mharagraff 6(2)(d)(i) o Atodlen 2.

(6) Pan fo P yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 6(2)(d)(ii) (deiliad trwydded Gymunedol) ac na fo'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig, nid yw'n ofynnol i P gydymffurfio â gofyniad ynysu pan fydd yn ymgymryd â'r gwaith y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw.[7]

Nodiadau:

1 Hepgorwyd gan reoliad 10(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021 (4.00am 19/07/21)

2 Amnewidiwyd gan reoliad 10(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021 (4.00am 19/07/21)

3 Amnewidiwyd gan reoliad 6(2)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 22/11/21)

4 Amnewidiwyd gan reoliad 6(2)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 22/11/21)

5 Hepgorwyd gan reoliad 6(2)(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 22/11/21)

6 Hepgorwyd gan reoliad 6(2)(d) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 22/11/21)

7 Hepgorwyd gan reoliad 6(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 22/11/21)

8 Hepgorwyd gan reoliad 9 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21)

9 Mewnosodwyd gan reoliad 9 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 (4.00am 07/01/22)

## 10. Gofynion ynysu: eithriadau

(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo gofyniad i ynysu yn ei gwneud yn ofynnol i berson ("P") breswylio mewn mangre (a pheidio â gadael y fangre na bod y tu allan iddi) yng Nghymru.

(2) Ystyr "gofyniad i ynysu" mewn perthynas â P yw gofyniad a osodir gan—

(a) rheoliad 7(3);

(b) rheoliad 8(3)(b).

(3) Mae gofyniad i ynysu yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas â P os yw P yn gadael Cymru, onid yw P y tu allan i Gymru dros dro at ddiben a awdurdodir gan baragraff 4(b) i (k).

(4) Caniateir i P adael y fangre a bod y tu allan iddi am gyhyd ag y bo'n angenrheidiol—

(a) i deithio at ddibenion gadael Cymru yn y modd a ddisgrifir gan baragraff (3);

(**24**) EUR 2006/561, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/453 a 2021/135 a 1658.

~~(b) i gael angenrheidiau sylfaenol (gan gynnwys ar gyfer personau eraill yn y fangre neu unrhyw anifeiliaid anwes yn y fangre), pan na fo'n bosibl neu'n ymarferol—~~

~~(i) i berson arall yn y fangre eu cael ar ran P, neu~~

~~(ii) eu cael drwy ddanfoniad i'r fangre gan drydydd parti;~~

~~(c) i geisio cynhorthwy meddygol, pan fo angen y cynhorthwy hwnnw ar frys neu yn unol â chyngor ymarferydd meddygol cofrestredig;~~

~~(d) i gael gwasanaeth iechyd a ddarperir gan ymarferydd meddygol cofrestredig, pan fo trefniadau wedi eu gwneud i ddarparu'r gwasanaeth cyn i P gyrraedd y Deyrnas Unedig;~~

~~(e) i gynorthwyo person sy'n derbyn gwasanaeth iechyd a ddisgrifir ym mharagraff (d), neu i fod gyda'r person hwnnw os yw P yn blentyn y mae gan y person hwnnw gyfrifoldeb amdano;~~

~~(ea) pan fo P yn blentyn nad yw'n byw ar yr un aelwyd â rhieni P, neu ag un o rieni P, i barhau â threfniant sydd eisoes yn bodoli er mwyn cael mynediad at, a chyswllt rhwng, P a rhieni P, ac at ddibenion yr is-baragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i P, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros P, neu sy'n gofalu amdano;~~

~~(f) i gael gafael ar wasanaethau milfeddygol—~~

~~(i) pan fo angen y gwasanaethau hynny ar fyrder ar gyfer anifail anwes yn y fangre, a~~

~~(ii) pan na fo'n bosibl i berson arall yn y fangre gael mynediad i'r gwasanaethau hynny;~~

~~(g) i wneud gweithgareddau penodedig mewn perthynas â garddwriaeth fwytadwy, ond dim ond os yw P yn preswylio yn y fangre mewn cysylltiad â'r gweithgareddau hynny;~~

~~(h) i osgoi salwch neu anaf neu i ddianc rhag risg o niwed;~~

~~(i) i fodloni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu i gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;~~

~~(j) i gael gafael ar wasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau i ddioddefwyr)—~~

~~(i) pan fo cael gafael ar y gwasanaeth yn hanfodol i lesiant P, a~~

~~(ii) pan na ellir darparu'r gwasanaeth os yw P yn aros yn y fangre;~~

~~(ja) pan fo P yn cystadlu mewn digwyddiad chwaraeon a bennir yn Atodlen 4 neu'n darparu hyfforddiant neu gymorth arall i berson sy'n cystadlu mewn digwyddiad o'r fath, i gymryd rhan yn y digwyddiad neu i ymgymryd â hyfforddiant neu weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad;~~

~~(jb) pan fo P yn gwasanaethu fel swyddog mewn digwyddiad chwaraeon o'r fath, neu'n ymwneud â'i gynnal, i fynd i'r digwyddiad neu i ymgymryd â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwasanaethu fel swyddog neu gynnal y digwyddiad;~~

~~(jh) pan fo P yn athletwr elît sydd wedi teithio i'r Deyrnas Unedig i gael un neu ragor o archwiliadau meddygol, i fynd i'r archwiliad hwnnw, ar yr amod—~~

~~(i) bod yr archwiliad meddygol at ddiben busnes sy'n penderfynu pa un ai i gynnig contract i P i gymryd rhan mewn cystadleuaeth elît ar ran y busnes hwnnw,~~

~~(ii) bod gan P gadarnhad ysgrifenedig yn ei feddiant oddi wrth y busnes hwnnw o'r trefniadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (i), a~~

~~(iii) bod y trefniadau hynny wedi eu gwneud cyn i P gyrraedd y Deyrnas Unedig;~~

~~(ji) pan fo P yn berson sy'n teithio gydag athletwr elît at ddiben is-baragraff (jh), i ddarparu cynorthwy a chymorth i'r athletwr elît hwnnw mewn cysylltiad ag archwiliad meddygol o'r fath;~~

~~(jj) pan fo P yn athletwr elît sydd wedi contractio â busnes i gymryd rhan mewn cystadleuaeth elît, i gymryd rhan mewn cystadleuaeth o'r fath neu ymgymryd â hyfforddiant neu weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r gystadleuaeth elît honno;~~

~~(k) am resymau tosturiol, gan gynnwys i fynd i angladd —~~

~~(i) aelod o deulu P;~~

~~(ii) ffrind agos.~~

~~(l) at ddiben cael prawf am y coronafeirws a ddarperir neu a weinyddir o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;~~

~~(m) pan fo P yn berson sy'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r paragraffau yn Atodlen 5, er mwyn teithio yn uniongyrchol i unrhyw fan neu o unrhyw fan lle y mae presenoldeb P yn ofynnol at ddibenion gwaith P, neu at ddibenion gweithgaredd y mae'r paragraff perthnasol yn Atodlen 5 yn ymwneud ag ef (yn ôl y digwydd), a phan fo P yn bresennol yn y man hwnnw.~~

~~(n) os yw cwnstabl yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny.~~

~~(o) os yw'n ynysu mewn cerbyd nwyddau yn rhinwedd rheoliad 9(4) —~~

~~(i) am resymau glanweithdra~~

~~(ii) i wneud ymarfer corff yn yr awyr agored,~~

~~(iii) pan fo'n ofynnol neu y caniateir gwneud hynny gan y paragraff hwnnw, i symud i le arall i ynysu,~~

~~(iv) i edrych ar y cerbyd neu ei lwyth neu i ymgymryd ag unrhyw dasg arall sy'n ofynnol er mwyn defnyddio'r cerbyd yn ddiogel a pharhau i'w ddefnyddio, gan gynnwys ail-lenwi â thanwydd, a~~

~~(v) am unrhyw reswm neu ddiben arall a bennir yn y paragraff hwn;[1]~~

~~(p) i gymryd prawf gweithlu sy'n ofynnol gan reoliad 6K.~~

~~(5) O ran P —~~

~~(a) pan fo rhwymedigaeth gyfreithiol yn ei gwneud yn ofynnol i P newid y fangre y mae'n preswylio ynddi at ddiben gofyniad i ynysu, neu~~

~~(b) pan na fo P fel arall yn gallu aros yn y fangre y mae P yn preswylio ynddi at ddiben gofyniad i ynysu,~~

~~caiff P deithio'n uniongyrchol i fangre arall yng Nghymru sy'n addas i P breswylio ynddi tan ddiwedd diwrnod olaf ynysiad P; ac mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at fangre, mewn perthynas â gofyniad i ynysu, i'w darllen yn unol â hynny.~~

~~(6) Pan fo paragraff (5) yn gymwys, rhaid i P hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol yn electronig am gyfeiriad y fangre arall cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol gan ddefnyddio cyfleuster a ddarparwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol at y diben hwnnw.~~

~~(7) Nid yw gofyniad i ynysu yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw gyfnod pan fo P —~~

~~(a) wedi ei symud ymaith i le, wedi ei gyfarwyddo i fynd i le neu wedi ei gyfarwyddo i aros mewn lle gan swyddog mewnfudo, cwnstabl neu swyddog iechyd y cyhoedd o dan Atodlen 21 i Ddeddf y Coronafeirws 2020(**25**);~~

~~(b) wedi ei gadw mewn lle yn rhinwedd gofyniad a osodir o dan y Deddfau Mewnfudo.~~

~~(8) At ddibenion y rheoliad hwn —~~

~~(a) mae i "athletwr elît" ("elite athlete") yr un ystyr ag ym mharagraff 21(2)(a) o Atodlen 5,~~

~~(**25**) 2020 p. 7.~~

~~mae i "cystadleuaeth elît" ("elite competition") yr un ystyr ag ym mharagraff 21(2)(b) o Atodlen 5;~~

~~ystyr "garddwriaeth fwytadwy" ("edible horticulture") yw tyfu—~~

~~(i) llysiau wedi eu diogelu a dyfir mewn systemau tai gwydr,~~

~~(ii) llysiau maes a dyfir yn yr awyr agored, gan gynnwys llysiau, perlysiau, salad deiliog a thatws,~~

~~(iii) ffrwythau meddal a dyfir yn yr awyr agored neu o dan orchudd,~~

~~(iv) coed sy'n dwyn ffrwyth,~~

~~(v) gwinwydd a choesynnau, neu~~

~~(vi) madarch;~~

~~ystyr "gwasanaeth iechyd" ("*health service*") yw gwasanaeth a ddarperir ar gyfer y canlynol neu mewn cysylltiad â'r canlynol—~~

~~(i) atal salwch, gwneud diagnosis o salwch neu ei drin, neu~~

~~(ii) hybu neu warchod iechyd y cyhoedd;~~

~~ystyr "ymarferydd meddygol cofrestredig" ("*registered medical practitioner*") yw person sydd wedi ei gofrestri'n llawn o fewn yr ystyr a roddir i "fully registered" yn Neddf Meddygol 1983(**26**) sydd yn dal trwydded i ymarfer o dan y Ddeddf honno;~~

~~ystyr "gweithgareddau penodedig" ("*specified activities*"), mewn perthynas â garddwriaeth fwytadwy, yw—~~

~~(i) cynnal a chadw cnydau,~~

~~(ii) cynaeafu cnydau,~~

~~(iii) codi twneli a'u datgymalu,~~

~~(iv) gosod dulliau dyfrhau a'u cynnal,~~

~~(v) hwsmonaeth cnydau,~~

~~(vi) pacio a phrosesu cnydau ar fangreoedd cyflogwyr,~~

~~(vii) paratoi mannau a chyfryngau tyfu a'u datgymalu,~~

~~(viii) gwaith cynhyrchu sylfaenol cyffredinol mewn garddwriaeth fwytadwy,~~

~~(ix) gweithgareddau sy'n ymwneud â goruchwylio timau o weithwyr garddwriaeth.~~

~~Nodiadau:~~

~~1 Hepgorwyd gan reoliad 7 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 22/11/21)~~

## ~~11. Gofyniad ar bersonau sydd â chyfrifoldeb am blentyn~~

~~Pan osodir gofyniad ar blentyn o dan reoliad 7, 8 neu 10, rhaid i berson sydd â chyfrifoldeb am y plentyn gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod y plentyn yn cydymffurfio â'r gofyniad.~~

~~(**26**) 1983 p.54. Gweler adran 55(1). Diwgiwyd y diffiniad o "fully registered person" gan O.S. 2006/1914, O.S. 2007/3101 a O.S. 2008/1774~~

**12. Diwrnod olaf yr ynysu**

At ddibenion rheoliadau 7, 8 a 10, diwrnod olaf ynysiad P yw diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl ar y diwrnod yr oedd P mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt ddiwethaf.

**12. Diwrnod olaf yr ynysu**

At ddibenion rheoliadau 7, 8 a 10, diwrnod olaf ynysiad P yw—

(a) pan fo P yn deithiwr rheoliad 2A, y cynharaf o'r canlynol—

(i) diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod yr oedd P mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt ddiwethaf; neu

(ii) y diwrnod yr hysbysir P bod canlyniad y prawf diwrnod 2 a gymerwyd yn unol â rheoliad 6AB yn negyddol;

(b) pan na fo P yn deithiwr rheoliad 2A, diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod yr oedd P mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt ddiwethaf.[1]

**12. Diwrnod olaf yr ynysu**

At ddibenion rheoliadau 7, 8 a 10, diwrnod olaf ynysiad P yw diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod yr oedd P mewn gwlad nad yw'n esempt ddiwethaf.[2]

Nodiadau:

[1] Amnewidiwyd gan reoliad 10 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21)

[2] Amnewidiwyd gan reoliad 10 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 (4.00am 07/01/22)

## RHAN 3C

## Teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A

**12E. Mesurau ychwanegol sy'n gymwys i bersonau sy'n teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A**

(1) Ni chaiff person ("P") ddod i Gymru os yw P wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â'r degfed diwrnod cyn y dyddiad y mae P yn cyrraedd Cymru.

(2) Ond nid yw paragraff (1) yn gymwys pan fo P—

(a) yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 1(1)(a) i (h) neu (k) o Atodlen 2 neu'n aelod o'r teulu sy'n ffurfio rhan o'i aelwyd;

(b) yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 1(1)(i) neu (j) o Atodlen 2 pan fo'r amodau ym mharagraff (3) wedi eu bodloni;

(c) yn aelod o'r teulu sy'n ffurfio rhan o aelwyd person y mae is-baragraff (b) yn gymwys iddo—

(i) pan fo'r amodau ym mharagraff (3) wedi eu bodloni mewn perthynas â'r person hwnnw,

(ii) pan fo'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu wedi ei hysbysu bod P yn cyrraedd, a

(iii) pan fo'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu wedi cadarnhau na ddylai paragraff (1) fod yn gymwys i P;

(d) yn berson a ddisgrifir yn y paragraffau a ganlyn o Atodlen 2—

(i) paragraffau 2 i 5;

(iaa) paragraff 6;

(ia) paragraffau 7 i 10;

(ia) paragraff 7, oni bai ei fod wedi teithio i'r Deyrnas Unedig i weithio, neu wedi ei ddychwelyd i'r Deyrnas Unedig ar ôl gweithio, ar fwrdd llong fordeithio;

(ib) paragraff 8;

(ic) paragraff 9, oni bai ei fod wedi teithio i'r Deyrnas Unedig i weithio, neu wedi ei ddychwelyd i'r Deyrnas Unedig ar ôl gweithio, ar fwrdd llong fordeithio;

(id) paragraff 10;[1]

(iii) paragraff 13 neu 13A;

(iv) paragraff 15 neu 16.

(e) yn berson—

(i) sy'n blentyn, neu a oedd yn blentyn, ar 1 Medi 2020 2021[2],

(ii) sydd wedi teithio i'r Deyrnas Unedig at ddibenion cael addysg mewn ysgol fyrddio yng Nghymru y bwriedir darparu addysg a llety ar gyfer P ynddi sefydliad addysgol yng Nghymru y bwriedir darparu addysg a llety ar gyfer P ynddo[3], a

(iii) nad yw'n dod i'r Deyrnas Unedig yng nghwmni unigolyn sydd â chyfrifoldeb dros P, neu os yw P yn 18 oed, a fyddai wedi bod â chyfrifoldeb o'r fath pe bai P yn blentyn.

(f) yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 14 o Atodlen 5;

(g) yn berson—

(i) y mae'n ofynnol iddo ymgymryd â gwaith fel gweithiwr iechyd proffesiynol neu weithiwr gofal proffesiynol yn y Deyrnas Unedig,

(ii) sy'n gymwys i ymarfer proffesiwn a reoleiddir gan unrhyw un neu ragor o'r cyrff a grybwyllir yn adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002(**27**) neu adran 67 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**28**), a

(iii) sydd wedi teithio i'r Deyrnas Unedig at ddiben cyflogaeth fel gweithiwr iechyd proffesiynol neu weithiwr gofal proffesiynol.

(3) Yr amodau a bennir yn y paragraff hwn yw bod, cyn i P ymadael i'r Deyrnas Unedig—

(a) pennaeth perthnasol y genhadaeth, y swydd gonsylaidd neu'r swyddfa sy'n cynrychioli tiriogaeth dramor yn y Deyrnas Unedig, neu Lywodraethwr tiriogaeth dramor Brydeinig (yn ôl y digwydd), neu berson sy'n gweithredu ar ei awdurdod, yn cadarnhau yn ysgrifenedig i'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu ei bod yn ofynnol i P ymgymryd â gwaith sy'n hanfodol i'r wlad dramor a gynrychiolir gan y genhadaeth neu'r swydd gonsylaidd, y diriogaeth dramor a gynrychiolir gan y swyddfa neu'r diriogaeth dramor Brydeinig, a

(**27**) 2002 p. 17.

(**28**) 2016 dccc. 2.

(b) y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu yna wedi cadarnhau yn ysgrifenedig i'r person sy'n rhoi'r cadarnhad y cyfeirir ato yn is-baragraff (a)—

(i) ei fod wedi cael y cadarnhad hwnnw, a

(ii) bod P yn teithio i'r Deyrnas Unedig i gynnal busnes swyddogol gyda'r Deyrnas Unedig ac nad yw'n ofynnol iddo gydymffurfio â pharagraff (1).

(3A) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo gofyniad i ynysu (o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 10(2)) yn cael ei osod ar P pan fo P wedi dod i Gymru a'i fod wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â'r degfed diwrnod cyn y dyddiad y mae P yn cyrraedd Cymru.

(3B) Pan fo paragraff (3A) yn gymwys—

(a) mae rheoliadau 7, 8, 9 a 10 yn gymwys i P gyda'r addasiadau ym mharagraffau (3C) i (3F);

(b) mae'r gofyniad i ynysu sydd wedi ei osod ar P fel y'i haddesir gan baragraffau (3C) i (3F) hefyd wedi ei osod ar bob aelod o aelwyd P.

(3C) Mae rheoliad 7 yn gymwys fel pe bai—

(a) ym mharagraff (1), cyfeiriadau at "gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt" yn gyfeiriadau at "gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A";

(b) paragraff (4)(b) wedi ei hepgor.

(3D) Mae rheoliad 8 yn gymwys fel pe bai—

(a) ym mharagraff (1), cyfeiriadau at "gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt" yn gyfeiriadau at "gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A";

(b) paragraff (2)(b) wedi ei hepgor.

(3E) Mae rheoliad 9 yn gymwys fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn lle paragraff (2)—

"(2)Nid yw rheoliadau 7 ac 8 yn gymwys i berson a ddisgrifir yn rheoliad rheoliad 12E(2)(a) i (d)"

(3F) Mae rheoliad 10 yn gymwys fel pe bai—

(a) ym mharagraff (3), "baragraff (4)" wedi ei roi yn lle "baragraff (4)(b) i (k)";

(b) y canlynol wedi ei roi yn lle paragraff (4)—

"(4) Caniateir i P ymadael â'r fangre a bod y tu allan iddi am gyhyd ag y bo'n angenrheidiol—

(a) i deithio at ddiben gadael Cymru;

(b) i geisio cynhorthwy meddygol, pan fo angen y cynhorthwy hwnnw ar frys neu yn unol â chyngor ymarferydd meddygol cofrestredig;

(c) i osgoi salwch, anaf, neu risg arall o niwed;

(d) i fodloni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu i gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;

(e) pan fo P yn blentyn nad yw'n byw ar yr un aelwyd â rhieni P, neu ag un o rieni P, i barhau â threfniant sydd eisoes yn bodoli er mwyn cael mynediad at, a chyswllt rhwng, P a rhieni P, ac at ddibenion yr is-baragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i P, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros P, neu sy'n gofalu amdano;

(f) am resymau tosturiol, gan gynnwys i fynd i angladd—

(i) aelod o deulu P;

(ii) ffrind agos;

~~(g) at ddiben cael prawf am y coronafeirws a ddarperir neu a weinyddir o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;~~

~~(h) os yw cwnstabl yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny.4~~

~~(i) pan fo P yn berson sy'n dod o fewn paragraff (2)(f), at ddiben ymgymryd â'r gwaith hwnnw."~~

~~(4) Pan fo gair neu ymadrodd wedi ei ddiffinio at ddibenion Atodlen 2 ac yn cael ei ddefnyddio yn y rheoliad hwn, mae'r un diffiniad yn gymwys at ddibenion y rheoliad hwn.1~~

~~(5) Yn y rheoliad hwn—~~

~~(a) ystyr "ysgol fyrddio" yw ysgol neu goleg ystyr "sefydliad addysgol" yw ysgol, coleg neu ddarparwr addysg uwch[4]—~~

~~(i) sy'n darparu llety ar gyfer ei disgyblion neu ei ddisgyblion neu, yn ôl y digwydd, ei myfyrwyr neu ei fyfyrwyr, yn ei mangre neu ei fangre ei hun, neu~~

~~(ii) sy'n trefnu llety ar gyfer ei disgyblion neu ei ddisgyblion neu ei myfyrwyr neu ei fyfyrwyr sydd i'w ddarparu yn rhywle arall (ac eithrio mewn cysylltiad â thaith breswyl i ffwrdd o'r ysgol);~~

~~(b) ystyr "ysgol" yw—~~

~~(i) ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol neu ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig o fewn ystyr "community school", "foundation school", "voluntary school", "community special school" a "foundation special school" yn adran 20 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**29**),~~

~~(ii) ysgol annibynnol sydd wedi ei chynnwys yn y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru (a gedwir o dan adran 158 o Ddeddf Addysg 2002(**30**),~~

~~(iii) ysgol arbennig nas cynhelir (fel y diffinnir "non-maintained special school") yn adran 337A o Ddeddf Addysg 1996(**31**), neu~~

~~(iv) uned cyfeirio disgyblion o fewn ystyr "pupil referral unit" yn adran 19(2) o Ddeddf Addysg 1996;~~

~~(c) ystyr "coleg" yw sefydliad o fewn y sector addysg bellach o fewn ystyr "institutions within the further education sector" yn adran 91 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.~~

~~(d) mae i "darparwr addysg uwch" yr ystyr a roddir i "higher education provider" yn adran 83(1) o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017(**32**).[5]~~

~~Nodiadau:~~

~~1 Amnewidiwyd gan reoliad 2(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021 (4.00am 29/05/21)~~

~~2 Amnewidiwyd gan reoliad 3(2)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2021 (4.00am 30/08/21)~~

~~3 Amnewidiwyd gan reoliad 3(2)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2021 (4.00am 30/08/21)~~

~~(**29**) 1998 c. 31.~~

~~(**30**) 2002 c.32.~~

~~(**31**) 1996 c. 21~~

~~(**32**) 2017 p. 29.~~

[4] Amnewidiwyd gan reoliad 3(3)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2021 (4.00am 30/08/21)

[5] Mewnosodwyd gan reoliad 3(3)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2021 (4.00am 30/08/21)

**12F. Gwahardd awyrennau a llestrau sy'n teithio'n uniongyrchol o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A rhag cyrraedd**

(1) Ni chaiff y person sy'n rheoli awyren neu lestr neu sydd â rheolaeth dros awyren neu lestr yr oedd ei man ymadael diwethaf neu ei fan ymadael diwethaf yn wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A beri na chaniatáu i'r awyren neu'r llestr gyrraedd Cymru, oni bai—

(a) ei bod yn rhesymol angenrheidiol iddi neu iddo wneud hynny er mwyn sicrhau diogelwch yr awyren neu'r llestr neu iechyd a diogelwch unrhyw berson ar ei bwrdd neu ar ei fwrdd;

(b) mai dim ond at ddiben ail-lenwi'r awyren neu'r llestr â thanwydd, neu gynnal a chadw'r awyren neu'r llestr, y mae'n cyrraedd Cymru, ac na chaniateir i unrhyw deithwyr fynd ar fwrdd yr awyren neu'r llestr neu ddod oddi ar yr awyren neu'r llestr;

(c) mai ambiwlans awyr yw'r awyren a'i fod yn glanio at ddiben cludo person i gael triniaeth feddygol; neu

(d) bod cyrraedd yn ofynnol fel arall yn unol â chyfarwyddyd a ddyroddir o dan Atodlen 3A i Ddeddf Llongau Masnach 1995(**33**).

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i—

(a) awyren a weithredir yn fasnachol neu lestr a weithredir yn fasnachol nad yw'n cludo unrhyw deithwyr;

(b) awyren neu lestr a weithredir gan Lywodraeth ei Mawrhydi yn y Deyrnas Unedig neu i'w chefnogi;

(c) awyren neu lestr a oedd mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A ddiweddaf 11 o ddiwrnodau neu ragor cyn cyrraedd Cymru.

(d) awyren neu lestr a weithredir gan wlad neu diriogaeth dramor neu i'w chefnogi pan fo, cyn iddi neu iddo gyrraedd Cymru, Adran o'r Llywodraeth wedi darparu cadarnhad ysgrifenedig i'r gweithredwr bod yr awyren neu'r llestr yn cludo teithwyr sy'n teithio i gynnal busnes swyddogol gyda'r Deyrnas Unedig.

(3) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr "cyrraedd" yw—

(i) mewn perthynas ag awyren, glanio;

(ii) mewn perthynas â llestr, angori yn unrhyw fan;

(b) ystyr "teithiwr" yw person a gludir mewn awyren neu ar lestr ac eithrio aelod o'i chriw neu o'i griw.

## RHAN 4

## Gorfodi a Throseddau

(**33**) 1995 p. 21.

**Paratowyd y ddogfen hon gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo darllenwyr y ddeddfwriaeth, ond nid yw'n fersiwn swyddogol o'r Offeryn Statudol neu'r Nodyn Esboniadol**

~~**13. Gorfodi gofyniad i ynysu**~~

~~(1) Pan fo gan berson awdurdodedig sail resymol dros gredu bod person ("P") wedi ymadael â'r lle y mae'n ynysu ynddo, neu ei fod y tu allan iddo, yn groes i reoliad 7(3) neu 8(3)(b) caiff y person awdurdodedig—~~

~~(a) cyfarwyddo P i ddychwelyd i'r fangre y mae P yn preswylio ynddi;~~

~~(b) pan fo'r person awdurdodedig yn gwnstabl, symud P ymaith i'r fangre y mae P yn preswylio ynddi;~~

~~(c) pan fo'r person awdurdodedig yn gwnstabl ac nad yw'n ymarferol neu'n briodol o dan yr amgylchiadau cymryd y cam yn is-baragraff (a) neu (b), symud P ymaith i fangre wedi ei threfnu gan Weinidogion Cymru sy'n addas i P breswylio ynddi at ddibenion rheoliad 7(3) neu 8(3)(b).~~

~~(2) Pan fo gan berson awdurdodedig sail resymol dros gredu bod P yn berson sy'n dod o fewn rheoliad 12E(3A), caiff person awdurdodedig wneud unrhyw un neu ragor o'r canlynol at ddiben sicrhau bod P yn cydymffurfio â gofyniad yn rheoliadau 7 ac 8—~~

~~(a) rhoi cyfarwyddyd i P, gan gynnwys cyfarwyddyd—~~

~~(i) bod P yn aros mewn ardal benodol o borthladd i aros i gael ei gludo i fangre benodedig;~~

~~(ii) bod P yn symud i le penodol er mwyn mynd ar gludiant i fangre benodedig;~~

~~(iii) bod P yn mynd ar gludiant er mwyn teithio i fangre benodedig;~~

~~(iv) bod P yn aros yn y fangre y mae P yn preswylio ynddi;~~

~~(b) symud P ymaith i fangre benodedig.~~

~~(3) Pan fo gan berson awdurdodedig sail resymol dros gredu bod P yn berson sy'n dod o fewn rheoliad 12E(3A) a bod P wedi cyflawni trosedd o dan reoliad 14(1)(g), caiff y person awdurdodedig—~~

~~(a) ei gwneud yn ofynnol i P ddangos ei basbort neu ei ddogfen deithio i'w archwilio neu ei harchwilio,~~

~~(b) cadw P am hyd at dair awr,~~

~~(c) cynnal chwiliad o P ac unrhyw baciau sy'n perthyn i P neu sydd o dan reolaeth P, neu unrhyw gerbyd y mae P wedi teithio ynddo, am dystiolaeth, ac eithrio eitemau sy'n ddarostyngedig i fraint gyfreithiol, sy'n ymwneud â chyflawni trosedd bosibl o dan reoliad 14(1)(g), a~~

~~(d) ymafael mewn unrhyw ddogfen neu wrthrych a ganfyddir mewn chwiliad o dan is-baragraff (c) a'i chadw neu ei gadw.~~

~~(4) Nid yw paragraff (3) yn rhoi pŵer i gadw neu gynnal chwiliad o blentyn sydd ar ei ben ei hun.~~

~~(5) Rhaid i unrhyw chwiliad o dan baragraff (3) gael ei gynnal gan berson awdurdodedig sydd o'r un rhywedd â P.~~

~~(6) Nid yw paragraff (3) yn rhoi pŵer i gynnal chwiliad o ran bersonol o'r corff.~~

~~(7) Caiff person awdurdodedig sy'n arfer y pŵer ym mharagraff (1)(b) neu (c), (2)(b) neu (3) ddefnyddio grym rhesymol, os yw hynny'n angenrheidiol, wrth arfer y pŵer.~~

~~(8) Pan fo P yn blentyn, a'i fod wedi ymadael â'r fangre y mae'n preswylio ynddi, neu'r tu allan iddi, a'i fod yng nghwmni unigolyn sy'n gyfrifol amdano—~~

~~(a) caiff person awdurdodedig gyfarwyddo'r unigolyn hwnnw i fynd â P i'r fangre y mae P yn preswylio ynddi, a~~

~~(b) rhaid i'r unigolyn hwnnw, i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod P yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan berson awdurdodedig i P.~~

~~(9) Pan fo P yn blentyn, a bod gan berson awdurdodedig sail resymol dros gredu bod P yn methu â chydymffurfio â gofyniad yn rheoliad 7 neu 8 yn fynych, caiff y person awdurdodedig gyfarwyddo unrhyw unigolyn sy'n gyfrifol am P i sicrhau, i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol, bod P yn cydymffurfio â'r gofyniad.~~

~~(10) Caiff person awdurdodedig gymryd unrhyw gamau eraill y mae'r person awdurdodedig yn ystyried eu bod yn angenrheidiol ac yn gymesur i hwyluso arfer pŵer a roddir i'r person awdurdodedig gan y rheoliad hwn.~~

~~(11) Ni chaiff person awdurdodedig arfer pŵer a roddir i'r person awdurdodedig gan y rheoliad hwn oni fo'r person awdurdodedig yn ystyried ei fod yn ddull angenrheidiol a chymesur o sicrhau y cydymffurfir â gofyniad yn rheoliad 7 neu 8.~~

~~(12) At ddibenion y rheoliad hwn—~~

~~ystyr "mangre benodedig" ("*specified premises*") yw mangre a bennir o dan reoliad 7 neu fangre y bernir ei bod yn addas o dan reoliad 8;~~

~~ystyr "person awdurdodedig" ("*authorised person*") yw—~~

~~(a) cwnstabl, neu~~

~~(b) at ddibenion paragraffau (2), (3) a (10) yn unig, swyddog mewnfudo.~~

## ~~14. Troseddau~~

~~(1) Mae oedolyn sy'n torri gofyniad yn rheoliad—~~

~~(a) 4(1) neu (4),~~

~~(aa) 6A(1) neu (2),~~

~~(b) 5(2),~~

~~(c) 7(2), (3) neu (5),~~

~~(d) 8(3) neu (4),~~

~~(e) 10(6),~~

~~(f) 11,~~

~~(g) 12E,~~

~~(h) 6AB,~~

~~[(ha) 6E(4);[6]][8]~~

~~(i) 6DA a 6DB neu[1]~~

~~(ia) 6E(6B).[10]~~

~~(j) 6K, neu[2]~~

~~(k) 6L,[3]~~

~~yn cyflawni trosedd.~~

~~(1A) Ond nid yw person yn cyflawni trosedd pan fo'n torri gofyniad yn rheoliad 6A(1), os oedd yn credu'n rhesymol ar adeg y toriad fod hysbysiad o ganlyniad negyddol yn ei feddiant yn ymwneud â'r person neu â phlentyn y mae gan y person gyfrifoldeb drosto (yn ôl y digwydd), yn ddilys ac o brawf cymhwysol (at ddibenion y rheoliad hwnnw).~~

~~(1B) Ond nid yw person yn cyflawni trosedd os oes ganddo esgus rhesymol dros dorri rheoliad 4(1) or (4), 5(2), 6AB, 6E(6B)[11] neu 6K, 6K neu 6L[4].~~

~~(1C) At ddibenion rheoliad 6AB mae esgus rhesymol yn cynnwys, yn benodol—~~

~~(a) pan nad oedd yn rhesymol ymarferol i berson archebu prawf oherwydd anabledd;~~

(b) pan oedd person yn ystyried yn rhesymol cyn cyrraedd Cymru na fyddai wedi bod yn rhesymol ymarferol i'r person (neu, yn ôl y digwydd, y plentyn y mae gan y person gyfrifoldeb drosto) ddarparu sampl ar gyfer prawf oherwydd anabledd;

(c) pan oedd angen triniaeth feddygol ar berson â'r fath frys fel nad oedd archebu prawf yn rhesymol ymarferol;

(d) pan oedd person yn gydymaith i berson a ddisgrifir yn is-baragraff (a) neu (c), er mwyn darparu cymorth iddo, boed yn feddygol neu fel arall, ac nad oedd yn rhesymol ymarferol i'r person a oedd yn gydymaith archebu prawf;

(e) pan ddechreuodd person ei daith i Gymru mewn gwlad neu diriogaeth nad oedd gan y person fynediad rhesymol ynddi i'r cyfleusterau neu'r gwasanaethau sy'n ofynnol i archebu prawf, gyda thâl neu'n ddi-dâl, ac nad oedd cyfleusterau neu wasanaethau o'r fath yn rhesymol hygyrch yn ei bwynt ymadael olaf os oedd hwnnw'n wahanol i'r lle y dechreuodd ei daith.

(1D) At ddibenion rheoliad 6AB [neu 6E(4)[7]][9] neu 6E(6B)[12], mae esgus rhesymol yn cynnwys, yn benodol—

(a) pan na fo'n rhesymol ymarferol i P gymryd prawf oherwydd anabledd;

(b) pan fo angen triniaeth feddygol ar P â'r fath frys fel nad yw cymryd prawf yn rhesymol ymarferol;

(c) pan fo prawf yn cael ei ganslo am resymau y tu hwnt i reolaeth P.

(1E) At ddibenion rheoliad 6K 6K neu 6L o ran cymryd profion[5], mae esgus rhesymol yn cynnwys, yn benodol—

(a) pan na fo'n rhesymol ymarferol i P gymryd prawf oherwydd anabledd,

(b) pan fo angen triniaeth feddygol ar P â'r fath frys fel nad yw cymryd prawf yn rhesymol ymarferol,

(c) pan fo prawf yn cael ei ganslo am resymau y tu hwnt i reolaeth P,

(d) pan fo P wedi ymadael â Chymru.

(2) Mae'n drosedd i oedolyn ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i'r Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion rheoliad 4, 5, 7(5), 8(4) neu 10(6)—

(a) pan fo'r person yn gwybod bod yr wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol, neu

(b) pan fo'r person yn ddi-hid ynghylch pa un a yw'n anwir neu'n gamarweiniol.

(2A) Ond nid yw person yn cyflawni trosedd o dan reoliad 4 neu 5 os oes ganddo esgus rhesymol dros ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i'r Ysgrifennydd Gwladol.

(3) Mae oedolyn sy'n methu cydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir gan gwnstabl o dan reoliad 13 yn cyflawni trosedd.

(4) Mae oedolyn sy'n rhwystro yn fwriadol unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn yn cyflawni trosedd.

(5) Mae'n amddiffyniad i gyhuddiad o gyflawni trosedd o dan baragraff (1) neu (3) i ddangos bod gan y person esgus rhesymol dros dorri'r gofyniad neu fethu â chydymffurfio â'r gofyniad o dan sylw.

(5A) Mewn perthynas â throsedd o dorri rheoliad 6A(1), mae'r amgylchiadau y mae gan berson esgus rhesymol oddi tanynt yn cynnwys—

(a) pan oedd person yn anffit yn feddygol i ddarparu sampl ar gyfer prawf cymhwysol cyn teithio i Gymru ac yn meddu ar ddogfen, wedi ei llofnodi gan ymarferydd meddygol sydd â hawl i ymarfer yn y wlad neu'r diriogaeth y mae'r ymarferydd hwnnw wedi ei leoli ynddi, i'r perwyl hwnnw,

(b) pan nad oedd yn rhesymol ymarferol i berson gael prawf cymhwysol cyn teithio i Gymru oherwydd—

(i) anabledd,

(ii) yr angen i gael triniaeth feddygol frys,

(c) pan oedd person yn mynd gyda pherson a ddisgrifir yn is-baragraff (b) er mwyn darparu cymorth (boed feddygol neu fel arall) ac nad oedd yn rhesymol ymarferol i'r person a oedd yn mynd gydag ef gael prawf cymhwysol cyn teithio i Gymru,

(d) pan oedd person wedi dechrau ar ei daith i Gymru mewn gwlad neu diriogaeth lle nad oedd prawf cymhwysol ar gael i'r cyhoedd (gyda thaliad neu hebddo) neu nad oedd yn rhesymol ymarferol i berson gael prawf cymhwysol oherwydd diffyg mynediad rhesymol i brawf cymhwysol neu gyfleuster profi ac nad oedd yn rhesymol ymarferol iddo gael prawf cymhwysol yn ei fan ymadael diwethaf os oedd hwnnw'n wahanol i'r fan lle y dechreuodd ei daith,

(e) pan oedd yr amser y mae wedi ei gymryd i berson deithio o'r wlad neu'r diriogaeth lle y dechreuodd ar ei daith i wlad neu diriogaeth ei fan ymadael diwethaf cyn cyrraedd Cymru yn golygu nad oedd yn rhesymol ymarferol iddo fodloni'r gofyniad ym mharagraff 1(c) o Atodlen 1A, ac nad oedd yn rhesymol ymarferol iddo gael prawf cymhwysol yn ei fan ymadael diwethaf.

(6) Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan y rheoliad hwn yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

(7) Mae adran 24 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984(34) yn gymwys mewn perthynas â throsedd o dan y rheoliad hwn fel pe bai'r rhesymau yn is-adran (5) o'r adran honno yn cynnwys—

(a) cynnal iechyd y cyhoedd;

(b) cynnal trefn gyhoeddus.

Nodiadau:

1 Hepgorwyd gan reoliad 11(2)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021 (4.00am 19/07/21)

2 Mewnosodwyd gan reoliad 11(2)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021 (4.00am 19/07/21)

3 Mewnosodwyd gan reoliad 11(2)(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021 (4.00am 19/07/21)

4 Amnewidiwyd gan reoliad 11(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021 (4.00am 19/07/21)

5 Amnewidiwyd gan reoliad 11(4) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021 (4.00am 19/07/21)

6 Mewnosodwyd gan reoliad 8(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 31/10/21)

7 Mewnosodwyd gan reoliad 8(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 31/10/21)

8 Hepgorwyd gan reoliad 11(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21)

9 Hepgorwyd gan reoliad 11(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21)

(34) 1984 p. 60. Amnewidiwyd adran 24 gan adran 110(1) o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15).

| | |
|---|---|
| 10 | Mewnosodwyd gan reoliad 11(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 (4.00am 09/01/22) |
| 11 | Mewnosodwyd gan reoliad 11(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 (4.00am 09/01/22) |
| 12 | Mewnosodwyd gan reoliad 11(4) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 (4.00am 09/01/22) |

## ~~15. Erlyn~~

~~Ni chaniateir dwyn achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn ond gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus neu unrhyw berson sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru.~~

## ~~16. Hysbysiadau cosb benodedig~~

~~(1) Caiff swyddog mewnfudo ddyroddi hysbysiad cosb benodedig i unrhyw oedolyn y mae'r swyddog yn credu'n rhesymol ei fod wedi cyflawni trosedd—~~

~~(a) o dan reoliad 14(1) neu (2)—~~

~~(i) mewn perthynas â gofyniad yn rheoliad 4(1) neu (4), 5(2), 6A(1) neu (2), 7(5), neu 12E~~

~~(ii) mewn perthynas â thorri gofyniad yn rheoliad 11 sy'n ymwneud â'r gofyniad yn rheoliad 7(5), neu~~

~~(b) o dan reoliad 14(4) lle credir bod y person yn fwriadol wedi rhwystro person oedd yn arfer swyddogaeth mewn perthynas ag un o'r gofynion hynny.~~

~~(2) Caiff cwnstabl ddyroddi hysbysiad cosb benodedig i unrhyw oedolyn y mae'r cwnstabl yn credu'n rhesymol ei fod wedi cyflawni trosedd o dan y Rheoliadau hyn.~~

~~(3) Hysbysiad yw hysbysiad cosb benodedig sy'n cynnig i'r person y'i dyroddir iddo y cyfle i gael ei ryddhau o unrhyw atebolrwydd am euogfarn am y drosedd drwy dalu cosb benodedig i—~~

~~(a) Gweinidogion Cymru, neu~~

~~(b) person a ddynodir gan Weinidogion Cymru at ddibenion cael taliad o dan y rheoliad hwn.~~

~~(4) Pan ddyroddir hysbysiad i berson o dan y rheoliad hwn mewn cysylltiad â throsedd—~~

~~(a) ni chaniateir dwyn unrhyw achos am y drosedd cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y dyddiad y dyroddir yr hysbysiad;~~

~~(b) ni chaniateir euogfarnu'r person o'r drosedd os yw'r person yn talu'r gosb benodedig cyn diwedd y cyfnod hwnnw.~~

~~(5) Rhaid i hysbysiad cosb benodedig—~~

~~(a) disgrifio'r amgylchiadau yr honnir eu bod yn ffurfio'r drosedd,~~

~~(b) datgan y cyfnod pan (oherwydd paragraff (4)(a)) na ddygir achos am y drosedd,~~

~~(c) pennu swm y gosb benodedig,~~

~~(d) datgan enw a chyfeiriad y person y caniateir talu'r gosb benodedig iddo, ac~~

~~(e) pennu dulliau o dalu a ganiateir.~~

~~(6) Pan ddyroddir yr hysbysiad cosb benodedig mewn cysylltiad â throsedd—~~

~~(a) o dorri gofyniad a osodir gan reoliad 7(2), neu (3), 8(3) neu 11,~~

~~(aa) o dorri gofyniad a osodir gan reoliad 6A,~~

~~(ab) o dorri gofyniad a osodir gan reoliad 6DA neu 6DB,~~

(ac) o dorri gofyniad yn Atodlen 1D,

(b) o dan reoliad 14(3), neu

(c) o dan reoliad 14(4) lle credir bod y person yn fwriadol wedi rhwystro person oedd yn arfer swyddogaeth mewn perthynas â rheoliad 7(2) neu (3), 8(3) neu 11,

mae'r swm a bennir o dan baragraff (5)(c) i fod fel a nodir ym mharagraff (6A).

(6A) Mae'r swm a bennir yn gosb benodedig ym mharagraff (6) i fod—

(a) yn achos yr hysbysiad cosb benodedig cyntaf a geir, yn £500;

(b) yn achos yr ail hysbysiad cosb benodedig a geir, yn £1000;

(c) yn achos y trydydd hysbysiad cosb benodedig a geir, yn £2000;

(d) yn achos y pedwerydd hysbysiad cosb benodedig a geir, ac unrhyw hysbysiad cosb benodedig a geir wedi hynny, yn £4000.

(6AA) Pan ddyroddir yr hysbysiad cosb benodedig i berson mewn cysylltiad â throsedd a ddisgrifir yn rheoliad 14(1)(g), rhaid i'r swm a bennir o dan baragraff (5)(c) fod yn £10,000.

(6AB) Pan ddyroddir yr hysbysiad cosb benodedig i berson mewn cysylltiad â throsedd a ddisgrifir yn rheoliad 14(1)(h) [neu (ha)[2]][5] neu (ia)[8], rhaid i'r swm a bennir o dan baragraff (5)(c) fod—

(a) yn achos hysbysiad cosb benodedig a ddyroddir mewn cysylltiad â methiant i drefnu profion yn unol â rheoliad 6AB(3), yn £1,000;

(b) yn achos yr hysbysiad cosb benodedig cyntaf a ddyroddir mewn cysylltiad â methiant i gymryd prawf yn unol â rheoliad 6AB(7) [neu 6E(4)[3]][6] neu 6E(6B)[9], yn £1,000;

(c) yn achos yr ail hysbysiad cosb benodedig a ddyroddir mewn cysylltiad â methiant i gymryd prawf yn unol â rheoliad 6AB(7) [neu 6E(4)4][7] neu 6E(6B)[10], yn £2,000.

(6AC) Pan ddyroddir yr hysbysiad cosb benodedig i berson mewn cysylltiad â throsedd a ddisgrifir yn rheoliad 14(1)(j) am dorri gofyniad yn rheoliad 6K, neu yn rheoliad 14(1)(k) am dorri gofyniad yn rheoliad 6L,[1] yna rhaid i'r swm a bennir o dan baragraff (5)(c) fod—

(a) yn achos hysbysiad cosb benodedig cyntaf, £1,000;

(b) yn achos ail hysbysiad cosb benodedig, £2,000;

(c) yn achos trydydd hysbysiad cosb benodedig a hysbysiad cosb benodedig a geir wedi hynny, £3,000.

(7) Yn ddarostyngedig i baragraff (7A), Pan ddyroddir yr hysbysiad cosb benodedig mewn cysylltiad â throsedd ("trosedd gwybodaeth neu hysbysu")—

(a) o dorri gofyniad a osodir gan reoliad 4(1) neu (4), 5(2), 7(5), 8(4) neu 10(6), neu

(b) o dan reoliad 14(4) lle credir bod y person yn fwriadol wedi rhwystro person oedd yn arfer swyddogaethau mewn perthynas ag un o'r gofynion hynny,

rhaid i'r swm a bennir o dan baragraff (5)(c) fod yn £60 (yn ddarostyngedig i baragraffau (8) a (9)).

(7A) Pan ddyroddir hysbysiad cosb benodedig i berson mewn cysylltiad â throsedd—

(a) o dan reoliad 14(2), a

(b) sy'n ymwneud â hanes teithio person i wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A,

rhaid i'r swm a bennir o dan baragraff (5)(c) fod yn £10,000.

(8) Caiff hysbysiad cosb benodedig a ddyroddir mewn cysylltiad â throsedd gwybodaeth neu hysbysu bennu, os telir £30 cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl dyddiad y dyroddir yr hysbysiad, mai dyna yw swm y gosb benodedig.

~~(9) Ond os yw'r person y dyroddir iddo hysbysiad cosb benodedig mewn cysylltiad â throsedd gwybodaeth neu hysbysu eisoes wedi cael hysbysiad cosb benodedig mewn cysylltiad â'r drosedd honno—~~

~~(a) nid yw paragraff (8) yn gymwys, a~~

~~(b) y swm a bennir fel y gosb benodedig fydd—~~

~~(i) yn achos yr ail hysbysiad cosb benodedig a geir, £120;~~

~~(ii) yn achos y trydydd hysbysiad cosb benodedig a geir, £240;~~

~~(iii) yn achos y pedwerydd hysbysiad cosb benodedig a geir, £480;~~

~~(iv) yn achos y pumed hysbysiad cosb benodedig a geir, £960;~~

~~(v) yn achos y chweched hysbysiad cosb benodedig a geir, ac unrhyw hysbysiad cosb benodedig a geir wedi hynny, £1920.~~

~~(10) Pa bynnag ddull arall a bennir o dan baragraff (5)(e), caniateir talu cosb benodedig drwy ragdalu a phostio llythyr sy'n cynnwys swm y gosb (mewn arian parod neu fel arall) i'r person y nodir ei enw o dan baragraff (5)(d) i'r cyfeiriad a nodir.~~

~~(11) Pan fo llythyr yn cael ei anfon fel a grybwyllir ym mharagraff (10), ystyrir bod taliad wedi ei wneud ar yr adeg y byddai'r llythyr hwnnw wedi cael ei ddanfon yn nhrefn arferol y post.~~

~~(12) Mewn unrhyw achos, mae tystysgrif—~~

~~(a) sy'n honni ei bod wedi ei llofnodi gan neu ar ran—~~

~~(i) Gweinidogion Cymru, neu~~

~~(ii) person sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru o dan baragraff (3)(b), a~~

~~(b) sy'n datgan bod y taliad am y gosb benodedig wedi dod i law, neu heb ddod i law, erbyn y dyddiad a bennir yn y dystysgrif,~~

~~yn dystiolaeth o'r ffeithiau a ddatgenir.~~

~~Nodiadau:~~

~~1 Mewnosodwyd gan reoliad 12 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021 (4.00am 19/07/21)~~

~~2 Mewnosodwyd gan reoliad 9(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 31/10/21)~~

~~3 Mewnosodwyd gan reoliad 9(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 31/10/21)~~

~~4 Mewnosodwyd gan reoliad 9(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu Teithio Rhyngwladoladau Amrywiol) 2021 (4.00am 31/10/21)~~

~~5 Hepgorwyd gan reoliad 12(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21)~~

~~6 Hepgorwyd gan reoliad 12(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21)~~

~~7 Hepgorwyd gan reoliad 12(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21)~~

~~8 Mewnosodwyd gan reoliad 12(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 (4.00am 09/01/22)~~

~~9 Mewnosodwyd gan reoliad 12(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 (4.00am 09/01/22)~~

| | |
|---|---|
| 10 | Mewnosodwyd gan reoliad 12(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 (4.00am 09/01/22) |

# RHAN 5

## Rhannu gwybodaeth

**17. Defnyddio a datgelu gwybodaeth**

(1) Yn y rheoliad hwn ac yn rheoliad 18, ystyr "gwybodaeth berthnasol" yw—

(a) gwybodaeth am deithiwr o Gymru;

(b) gwybodaeth am deithiwr o weddill y Deyrnas Unedig.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn—

(a) ystyr "gwybodaeth am deithiwr o Gymru" yw—

(i) gwybodaeth am deithiwr a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol at ddiben rheoliad 4 neu 5;

(ii) gwybodaeth a ddarparwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn hysbysiad a wnaed o dan reoliad 7(5)(b), 8(4) neu 10(6);

(iii) pan fo person yn trefnu neu'n cymryd prawf o dan reoliad 6AB—

(aa) gwybodaeth a gynhyrchir pan fo'r person yn trefnu prawf, neu'n cymryd prawf;

(bb) gwybodaeth a gafwyd gan ddarparwr prawf cyhoeddus ddarparwr prawf[1] (o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 6AB(2)(c) o dan reoliad 6AB(6);[2]

(cc) canlyniad prawf;

(dd) gwybodaeth a gofnodwyd gan ddarparwr prawf cyhoeddus ddarparwr prawf[1] wrth weinyddu prawf a gymerwyd yn unol â rheoliad 6AB (gan gynnwys cadarnhad bod y prawf wedi ei gymryd, manylion o ran pryd ac ymhle y'i cymerwyd, unrhyw resymau dros beidio â chymryd prawf a manylion unrhyw brawf sydd i'w gymryd yn ei le);

(iv) gwybodaeth a roddwyd i swyddog mewnfudo yn unol â rheoliad 6AB(11);

(v) pan fo sampl a gymerwyd mewn cysylltiad â phrawf diwrnod 2 o dan rheoliad 6AB wedi ei dilyniannu, y ffeil BAM wedi ei didoli sy'n ymwneud â'r sampl honno sy'n cynnwys yr holl ddarlleniadau sy'n alinio i'r genom cyfeirio SARS-CoV-2 gyda'r darlleniadau heb eu halinio a dynol wedi eu hepgor;

(b) ystyr "gwybodaeth am deithiwr o weddill y Deyrnas Unedig" yw gwybodaeth a roddir i berson o dan ddarpariaeth mewn Rheoliadau a wnaed mewn perthynas â Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon (yn ôl y digwydd) sy'n cyfateb i ddarpariaeth a grybwyllir yn is-baragraff (a).

(3) Yn y rheoliad hwn, mae unrhyw gyfeiriad at ddeiliad gwybodaeth yn gyfeiriad at—

(a) yr Ysgrifennydd Gwladol;

(b) person y datgelwyd yr wybodaeth iddo o dan baragraff (4) neu (5).

(c) darparwr prawf cyhoeddus darparwr prawf[3];

(d) swyddog mewnfudo.

(4) Caiff deiliad gwybodaeth am deithiwr o Gymru ddatgelu'r wybodaeth i berson arall (y "derbynnydd") o dan amgylchiadau pan fo'n angenrheidiol i'r derbynnydd gael yr wybodaeth—

~~(a) at ddiben arfer swyddogaeth y derbynnydd o dan—~~

~~(i) y Rheoliadau hyn, neu~~

~~(ii) Rheoliadau a wnaed mewn perthynas â Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon (yn ôl y digwydd) sy'n cyfateb â'r Rheoliadau yma;~~

~~(b) at ddiben—~~

~~(i) atal perygl i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i ledaeniad haint neu halogiad y coronafeirws,~~

~~(ii) monitro lledaeniad haint neu halogiad y coronafeirws, neu~~

~~(iii) rhoi effaith i unrhyw drefniant neu gytundeb rhyngwladol sy'n ymwneud â lledaeniad haint neu halogiad y coronafeirws;~~

~~(c) at ddiben sy'n gysylltiedig â'r diben a ddisgrifir yn is-baragraff (a) neu (b), neu sydd fel arall yn gysylltiedig â'r diben hwnnw~~

~~(5) Caiff deiliad gwybodaeth am deithiwr o weddill y Deyrnas Unedig ei ddatgelu i berson arall ("y derbynnydd") mewn amgylchiadau lle ei bod hi'n angenrheidiol i'r derbynnydd gael y wybodaeth—~~

~~(a) at ddiben arfer swyddogaeth y derbynnydd o dan y Rheoliadau yma;~~

~~(b) at ddiben—~~

~~(i) atal perygl i iechyd y cyhoedd yng Nghymru o ganlyniad i ledaeniad haint neu halogiad y coronafeirws,~~

~~(ii) monitro lledaeniad haint neu halogiad y coronafeirws yng Nghymru, neu~~

~~(iii) rhoi effaith yng Nghymru i unrhyw drefniant neu gytundeb rhyngwladol sy'n ymwneud â lledaeniad haint neu halogiad y coronafeirws;~~

~~(c) at ddiben sy'n gysylltiedig â diben a ddisgrifir yn is-baragraff (a) neu (b) neu ddiben sydd fel arall yn gysylltiedig â'r diben hwnnw.~~

~~(6) Ni all deiliad gwybodaeth berthnasol ddefnyddio'r wybodaeth ac eithrio—~~

~~(a) at ddiben arfer swyddogaeth y deiliad o dan y Rheoliadau hyn;~~

~~(b) yn achos gwybodaeth am deithiwr o Gymru, at ddiben a ddisgrifir ym mharagraff (4)(b);~~

~~(c) yn achos gwybodaeth am deithiwr o weddill y Deyrnas Unedig, at ddiben a ddisgrifir ym mharagraff (5)(b);~~

~~(d) at ddiben sy'n gysylltiedig â diben a ddisgrifir yn is-baragraff (a), (b) neu (c), neu ddiben sydd fel arall yn gysylltiedig â'r diben hwnnw.~~

~~(7) Er gwaethaf paragraffau (4), (5) a (6), nid yw'r rheoliad hwn yn cyfyngu'r amgylchiadau lle y gellir fel arall ddatgelu'r wybodaeth yn gyfreithiol, neu lle y gellir defnyddio'r wybodaeth o dan unrhyw ddeddfiad arall neu reol gyfreithiol arall.~~

~~(8) Nid yw datgeliad a awdurdodir gan y rheoliad hwn yn torri—~~

~~(a) rhwymedigaeth o safbwynt cyfrinachedd sy'n ddyledus gan y person sy'n gwneud y datgeliad, neu~~

~~(b) unrhyw gyfyngiad arall ar ddatgelu gwybodaeth (ym mha fodd bynnag y'i gorfodir).~~

~~(9) Nid oes unrhyw beth yn y rheoliad hwn yn awdurdodi datgelu data personol pan fo gwneud hynny yn torri'r ddeddfwriaeth diogelu data.~~

~~(10) Ym mharagraff (9), mae i "ddeddfwriaeth diogelu data" a "data personol" yr ystyr a roddir i "data protection legislation" a "personal data" yn adran 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018(**35**).~~

~~(**35**) 2018 p. 12.~~

Nodiadau:

1 Amnewidwyd gan reoliad 6(2)(a) o Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Hysbysu) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (21/09/21)

2 Hepgorwyd gan reoliad 6(2)(b) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Hysbysu) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (21/09/21)

3 Amnewidwyd gan reoliad 6(3) o Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Hysbysu) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (21/09/21)

**18. Hunanargyhuddo**

(1) Caniateir i wybodaeth berthnasol gael ei defnyddio fel tystiolaeth yn erbyn y person y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef mewn achos troseddol.

(2) Pan ddefnyddir yr wybodaeth mewn unrhyw achos

(a) ni chaniateir i unrhyw dystiolaeth sy'n ymwneud â'r wybodaeth gael ei rhoi gan yr erlyniad nac ar ei ran, a

(b) ni chaniateir i unrhyw gwestiwn sy'n ymwneud â'r wybodaeth gael ei ofyn gan yr erlyniad nac ar ei ran.

(2A) Nid yw paragraff (2) yn gymwys os yw'r achos ar gyfer—

(a) trosedd o dan y Rheoliadau hyn,

(b) trosedd o dan adran 5 o Ddeddf Anudon 1911(**36**) (datganiadau anwir a wneir ac eithrio ar lw),

(c) trosedd o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006(**37**) (twyll), neu

(d) trosedd o dan adran 2 neu 3 o Ddeddf Twyll a Ffugio 1981(**38**) (trosedd o gopïo neu ddefnyddio offeryn ffug).

(3) Nid yw paragraff (2) yn gymwys—

(a) os rhoddir tystiolaeth sy'n ymwneud â'r wybodaeth gan y person a'i darparodd, neu ar ei ran, yn ystod yr achos, neu

(b) os gofynnir cwestiwn sy'n ymwneud â'r wybodaeth gan y person hwnnw, neu ar ei ran, yn ystod yr achos.

## RHAN 6

## Adolygu a dod i ben

**19. Adolygu'r gofynion**

Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r angen am y gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn, ac a yw'r gofynion hynny'n gymesur â'r hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ceisio ei gyflawni drwyddynt—

(a) erbyn 29 Mehefin 2020,

(**36**) 1911 p. 6. Diwygiwyd adran 5 gan adran 1(2) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1948 (p. 58).

(**37**) 2006 p. 35

(**38**) 1981 p. 45.

~~(b) erbyn 27 Gorffennaf 2020;~~

~~(c) o leiaf unwaith yn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â 28 Gorffennaf 2020;~~

~~(d) o leiaf unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 28 o ddiwrnodau.~~

**~~20. Y Rheoliadau'n dod i ben~~**

~~(1) Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar ddiwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y deuant i rym 31 Mai 2022[1].~~

~~(2) Nid yw'r ffaith bod y Rheoliadau hyn wedi dod i ben yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir yn unol â'r Rheoliadau hyn cyn iddynt ddod i ben.~~

~~Nodiadau:~~

~~1 Amnewidiwyd gan reoliad 2 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) 2021 (4.00am 29/05/21)~~

~~*Mark Drakeford*~~
~~Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru~~
~~*5 Mehefin 2020*~~

**Paratowyd y ddogfen hon gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo darllenwyr y ddeddfwriaeth, ond nid yw'n fersiwn swyddogol o'r Offeryn Statudol neu'r Nodyn Esboniadol**

# ~~ATODLEN 1~~

~~Rheoliad 2(1)~~

## ~~Gwybodaeth am Deithiwr~~

~~**1.** Manylion personol—~~

~~(a) enw llawn,~~

~~(b) rhyw,~~

~~(c) dyddiad geni,~~

~~(d) rhif pasport, neu gyfeirnod dogfen deithio (fel y bo'n briodol), y dyddiad dyroddi a'r dyddiad y daw'r pasport neu'r ddogfen i ben a'r awdurdod dyroddi,~~

~~(e) rhif ffôn,~~

~~(f) cyfeiriad cartref,~~

~~(g) cyfeiriad e-bost.~~

~~**2.** Manylion y daith—~~

~~(a) os yn gymwys, cyfeiriad mangre addas yng Nghymru y mae'r person yn bwriadu preswylio ynddi fel sy'n ofynnol gan reoliad 7(3),~~

~~(b) os yn gymwys, cyfeiriad mangre addas yn y Deyrnas Unedig y mae P yn bwriadu preswylio ynddi fel sy'n ofynnol gan ddarpariaeth gyfatebol mewn Rheoliadau a wnaed mewn perthynas â Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon,~~

~~(c) dyddiad y bydd y person yn cyrraedd y cyfeiriad a bennir yn is-baragraff (a) neu (b), neu'r dyddiad y mae'n bwriadu cyrraedd, fel y bo'n briodol,~~

~~(d) y gweithredwr y mae'r person yn teithio gydag ef, neu wedi teithio gydag ef, neu'r gweithredwr a ddefnyddiodd y person i archebu'r daith,~~

~~(e) rhif y sedd,~~[3]

~~(ea) rhif eu coets,~~

~~(f) rhif yr hediad neu enw'r llestr,~~

~~(h) y lleoliad yn y Deyrnas Unedig y bydd y person yn ei gyrraedd, neu'r lleoliad yn y Deyrnas Unedig y mae wedi ei gyrraedd,~~

~~(i) y wlad y mae'r person yn teithio drwyddi, neu wedi ymadael ohoni,~~

~~(ia) unrhyw wlad neu diriogaeth arall y bydd P ynddi, neu y mae P wedi bod ynddi, yn ystod y cyfnod o 10 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r dyddiad y mae P yn cyrraedd y Deyrnas Unedig, neu y mae'n bwriadu cyrraedd y Deyrnas Unedig,~~

~~(ib) pan fo is-baragraff (ia) yn gymwys, y dyddiadau yr oedd P yn y wlad neu'r diriogaeth arall neu y bydd P yn y wlad neu'r diriogaeth arall,~~

~~(j) y dyddiad a'r amser y bydd y person yn cyrraedd y Deyrnas Unedig neu y mae'n bwriadu ei chyrraedd, fel y bo'n briodol,~~

~~(k) a yw'r person yn teithio drwy'r Deyrnas Unedig fel rhan o siwrnai gysylltu i gyrchfan y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac, os felly—~~

~~(i) lleoliad y man y bydd y person yn ymadael â'r Deyrnas Unedig,~~

~~(ii) y wlad sy'n gyrchfan terfynol y person,~~

~~(iii) enw'r gweithredwr y mae'r person yn teithio gydag ef ar y daith sy'n dilyn, neu'r gweithredwr a ddefnyddiodd y person i archebu'r daith sy'n dilyn,~~

(iv) rhif sedd y daith sy'n dilyn,[3]

(v) rhif yr hediad neu enw'r llestr ar gyfer y daith sy'n dilyn.

(vi) rhif y goets ar gyfer y daith sy'n dilyn.

**3.** Pan fo rheoliad 6AB yn ei gwneud yn ofynnol i brawf diwrnod 2 a phrawf diwrnod 8 gael eu trefnu—

(a) enw darparwr y profion, a

(b) cyfeirnod y profion a ddarparwyd iddynt gan ddarparwr y prawf yn unol â rheoliad 6AB(6).

**[3. 3A.[2]]** Pan fo'r teithiwr yn bwriadu manteisio ar esemptiad fel teithiwr rheoliad 2A, y ffaith bod y teithiwr wedi ei frechu neu'n dod o fewn un o'r categorïau esemptiad eraill o fewn rheoliad 2A.[1]

**4.** Pan fo'r person yn teithio gyda phlentyn y mae ganddo gyfrifoldeb amdano—

(a) enw llawn a dyddiad geni'r plentyn hwnnw,

(b) perthynas y teithiwr â'r plentyn hwnnw.

Nodiadau:

1 Mewnosodwyd gan reoliad 13 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021 (4.00am 19/07/21)

2 Wedi'i ail rhifo gan reoliad 4 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2021 (4.00am 20/07/21)

3 Hepgorwyd gan reoliad 10 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 31/10/21)

# ATODLEN 1A

Rheoliad 6A

## Profion cyn cyrraedd Cymru

**1.—** Mae prawf yn cydymffurfio â'r paragraff hwn—

(a) os yw'n brawf ar gyfer canfod y coronafeirws, sy'n—

(i) prawf adwaith cadwynol polymerasau, neu

(ii) prawf a gynhaliwyd gan ddefnyddio dyfais y mae'r gweithgynhyrchydd yn datgan bod ganddi—

(aa) sensitifrwydd o 80% o leiaf,

(bb) penodolrwydd o 97% o leiaf, a

(cc) terfyn canfod o lai na 100,000 o gopïau SARS-CoV-2 y mililitr neu'n hafal i hynny,

(b) os nad yw'n brawf a ddarperir neu a weinyddir o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**39**), Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**40**), Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978(**41**), neu Orchymyn

(**39**) 2006 p. 41.

(**40**) 2006 p. 42.

(**41**) 1978 p. 29.

~~Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1972(**42**), a~~

~~(c) os cymerir sampl y prawf o berson ddim mwy na [72 48[1]] o oriau cyn—~~

~~(i) yn achos person sy'n teithio i Gymru ar wasanaeth trafnidiaeth masnachol, yr amser a amserlennwyd ar gyfer ymadawiad y gwasanaeth, neu~~

~~(ii) mewn unrhyw achos arall, amser ymadael gwirioneddol y llestr neu'r awyren y mae'r person hwnnw yn teithio arni i Gymru.~~

~~**2.**—Rhaid i hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn yn Saesneg, Ffrangeg neu Sbaeneg—~~

~~(a) enw'r person y cymerwyd y sampl ohono,~~

~~(b) dyddiad geni neu oedran y person hwnnw,~~

~~(c) canlyniad (negyddol) y prawf,~~

~~(d) y dyddiad y casglwyd sampl y prawf neu'r dyddiad y cafodd darparwr y prawf ef,~~

~~(e) datganiad—~~

~~(i) bod y prawf yn brawf adwaith cadwynol polymerasau, neu~~

~~(ii) o enw'r ddyfais a ddefnyddiwyd ar gyfer y prawf,~~

~~(g) enw darparwr y prawf.~~

~~**3.**—(1) Y personau y cyfeirir atynt yn rheoliad 6A(4)(c) (nad yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â'r rheoliad hwnnw) yw—~~

~~(b) person a ddisgrifir yn—~~

~~(i) paragraff 13(1)(b) o Atodlen 2 pan fo'r Adran berthnasol, cyn i'r person ymadael i'r Deyrnas Unedig, wedi ardystio ei fod yn bodloni'r disgrifiad hwn ac nad yw'n ofynnol iddo gydymffurfio â rheoliad 6A, neu~~

~~(ii) paragraff 13A o Atodlen 2 pan fo'r Adran berthnasol, cyn i'r person ymadael i'r Deyrnas Unedig, hefyd wedi ardystio nad yw'n ofynnol iddo gydymffurfio â rheoliad 6A,~~

~~(c) a gwas i'r Goron neu gontractwr llywodraeth ("C") y mae'n ofynnol iddo ymgymryd â gwaith llywodraeth hanfodol neu blismona hanfodol yn y Deyrnas Unedig neu sy'n dychwelyd o wneud gwaith o'r fath y tu allan i'r Deyrnas Unedig pan fo'r Adran berthnasol, cyn i P ymadael i'r Deyrnas Unedig, wedi ardystio ei fod yn bodloni'r disgrifiad hwn ac nad yw'n ofynnol iddo gydymffurfio â rheoliad 6A,~~

~~(d) cynrychiolydd ("C") gwlad neu diriogaeth dramor sy'n teithio i'r Deyrnas Unedig i gynnal busnes swyddogol gyda'r Deyrnas Unedig pan fo, cyn i C ymadael i'r Deyrnas Unedig—~~

~~(i) pennaeth perthnasol y genhadaeth, y swyddfa gonsylaidd neu'r swyddfa sy'n cynrychioli tiriogaeth dramor yn y Deyrnas Unedig, neu Lywodraethwr tiriogaeth dramor Brydeinig (yn ôl y digwydd), neu berson sy'n gweithredu ar ei awdurdod, yn cadarnhau yn ysgrifenedig i'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu ei bod yn ofynnol i C wneud gwaith sy'n hanfodol i'r wlad dramor a gynrychiolir gan y genhadaeth neu'r swyddfa gonsylaidd, y diriogaeth dramor a gynrychiolir gan y swyddfa neu'r diriogaeth dramor Brydeinig, a~~

~~(**42**) 1972 Rhif 1265 (G.I. 14).~~

~~(ii) y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu wedi cadarnhau yn ysgrifenedig wedi hynny i'r person sy'n rhoi'r hysbysiad yn is-baragraff (i)—~~

~~(aa) ei bod wedi cael y cadarnhad hwnnw, a~~

~~(bb) bod C yn teithio i'r Deyrnas Unedig i gynnal busnes swyddogol gyda'r Deyrnas Unedig ac nad yw'n ofynnol iddo gydymffurfio â rheoliad 6A,~~

~~(e) gweithiwr sydd â sgiliau technegol arbenigol, pan fo angen y sgiliau technegol arbenigol hynny ar gyfer gwaith neu wasanaethau brys (gan gynnwys comisiynu, cynnal a chadw, ac atgyweirio a gwiriadau diogelwch) i sicrhau y parheir i gynhyrchu, cyflenwi, symud, gweithgynhyrchu, storio neu gadw nwyddau neu wasanaethau, pan fo'r gweithiwr wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith neu fel arall i ddechrau neu ailddechrau gweithio[,~~

~~(f) aelod o griw awyren sy'n cael ei gludo ar hediad at ddiben cyflawni dyletswyddau sydd i'w haseinio gan y gweithredwr neu'r peilot sydd â rheolaeth o'r awyren, er budd diogelwch yr awyren, pan fo wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith.".~~

~~(2) Yn is-baragraff (1)—~~

~~mae i "contractwr llywodraeth" ("*government contractor*"), "gwaith llywodraeth hanfodol" ("*essential government work*") a "gwas i'r Goron" ("*Crown servant*") a "plismona hanfodol" ("*essential policing*") yr ystyron a roddir ym mharagraff 13(2) o Atodlen 2;~~

~~mae i "swyddfa gonsylaidd" ("*consular post*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 1(3) o Atodlen 2.~~

~~Nodiadau:~~

~~1 Amnewidiwyd gan reoliad 3 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 4) 2021 (4.00am 07/12/21)~~

# ~~ATODLEN 1B~~

~~Rheoliad 6AB~~

## ~~Gwybodaeth archebu~~

**~~Gwybodaeth archebu~~**

~~**1.**— Manylion personol—~~

~~(a) enw llawn~~

~~(b) rhyw;~~

~~(c) tras ethnig;~~

~~(d) dyddiad geni;~~

~~(e) rhif pasbort, neu gyfeirnod dogfen deithio (fel y bo'n briodol);~~

~~(f) rhif GIG (os yw'n hysbys ac yn gymwys);~~

~~(g) rhif ffôn;~~

~~(h) cyfeiriad cartref;~~

~~(i) cyfeiriad e-bost.~~

~~**2.** Manylion y daith—~~

~~(ab) cyfeiriad cartref P;~~

~~(ab) pan fo P yn berson y mae rheoliad 7(1) neu 8(1) yn gymwys iddo, y cyfeiriad y mae'n bwriadu ynysu ynddo (os yw'n wahanol i'w gyfeiriad cartref);~~

~~(ac) pan fo P yn berson nad yw rheoliad 7(1) neu 8(1) yn gymwys iddo, y cyfeiriad neu'r cyfeiriadau y mae'n bwriadu aros ynddo neu ynddynt yn ystod y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl y dyddiad y cyrhaeddodd y Deyrnas Unedig.~~

~~(a) dyddiad cyrraedd y Deyrnas Unedig;~~

~~(b) rhif coets;~~

~~(c) rhif hediad neu enw llestr;~~

~~(d) y dyddiad yr oedd P mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt ddiwethaf;~~

~~(e) y wlad neu'r diriogaeth y bydd P yn teithio ohoni pan fydd P yn cyrraedd y Deyrnas Unedig, ac unrhyw wlad neu diriogaeth y bydd P wedi bod ynddi fel rhan o'r daith honno.~~

# ~~ATODLEN 1C~~

~~Rheoliad 6AB~~

## ~~Profi mandadol ar ôl cyrraedd Cymru~~

~~**Gofynion prawf diwrnod 2 Profion diwrnod 2: gofynion cyffredinol**~~[4]

~~**1.** (1) Mae prawf diwrnod 2 yn cydymffurfio â'r paragraff hwn pan fo'r prawf yn cydymffurfio ag is-baragraff (2) a phan fo—~~

~~(a) yn brawf a ddarperir gan ddarparwr prawf cyhoeddus, neu~~

~~(b) yn brawf a ddarperir gan ddarparwr prawf preifat pan fo'r darparwr prawf preifat yn cydymffurfio â pharagraff 1ZA.~~[5]

~~(2) Mae prawf diwrnod 2 yn cydymffurfio â'r paragraff is-baragraff~~[6] ~~hwn—~~

~~(a) pan fo'n brawf lled-feintiol ar gyfer canfod y coronafeirws—~~

~~(i) sy'n targedu o leiaf ddau enyn SARS-CoV-2 y gellir gwahaniaethu rhyngddynt ac eithrio'r genyn S a rheolaethau cyfeirio perfformiad,~~

~~(ii) sy'n cynnwys rheolwaith sicrwydd in silico yn erbyn pob amrywiolyn sy'n destun pryder, a~~

~~(iii) sy'n cynhyrchu toddiant prawf sy'n darparu asid niwclëig a echdynnwyd sy'n addas ar gyfer dilyniannu genom cyfan gan ddefnyddio dull penodedig,~~

~~(b) pan fo gweithgynhyrchydd unrhyw ddyfais a ddefnyddir at ddibenion y prawf yn datgan—~~

~~(i) bod y ddyfais yn defnyddio dull sefydledig o ganfod moleciwlau,~~

~~(ii) bod gan y ddyfais benodolrwydd a sensitifrwydd sy'n fwy na 99% neu'n gyfwerth â hynny1 (a chyfwng neu gyfwng2 hyder dwyochrog o 95% sydd uwchben 97% yn llwyr),~~

~~(iii) bod gan y ddyfais derfyn canfod o lai na 1000 copi SARS-CoV-2 y mililitr, neu gyfwerth â hynny, a~~

~~(iv) bod y ddyfais yn addas ar gyfer canfod pob amrywiolyn sy'n destun pryder, ac~~

~~(c) pan fo unrhyw ddyfais a ddefnyddir at ddibenion y prawf—~~

~~(i) yn gallu cael ei defnyddio yn unol â Rhan 4 o Reoliadau Dyfeisiau Meddygol 2002(1), ac eithrio yn rhinwedd rheoliad 39(2) o'r Rheoliadau hynny yn unig, a~~

~~(ii) wedi ei dilysu ddim mwy na 18 mis cyn gweinyddu neu ddarparu'r prawf i P.~~

~~**Profion diwrnod 2: gofynion o ran darparwr prawf preifat**~~

~~**1ZA.** (1) At ddibenion paragraff 1(1)(b), mae darparwr prawf preifat yn cydymffurfio â'r paragraff hwn—~~

~~(a) pan fo'n darparu profion diwrnod 2 mewn un gwasanaeth profi o'r dechrau i'r diwedd (pa un a yw'n trefnu gyda pherson arall ("X") i X ddarparu un neu ragor o elfennau'r gwasanaeth ar ei ran ai peidio);~~

~~(b) pan fo ymarferydd meddygol cofrestredig yn goruchwylio ac yn cymeradwyo arferion meddygol a gyflawnir gan y darparwr prawf preifat, ac yn gyfrifol am roi gwybod am faterion meddygol;~~

~~(c) pan fo ganddo system effeithiol o lywodraethu clinigol ar waith sy'n cynnwys gweithdrefnau gweithredu safonol priodol mewn perthynas â chynnal profion diwrnod 2;~~

~~(d) pan fo gwyddonydd clinigol cofrestredig yn goruchwylio arferion clinigol a gyflawnir gan y darparwr prawf preifat, ac yn gyfrifol am roi gwybod am faterion clinigol;~~

~~(e) pan fo ganddo systemau ar waith i nodi unrhyw ddigwyddiadau andwyol neu faterion rheoli ansawdd mewn perthynas â phrofion diwrnod 2 a gallu rhoi gwybod i Weinidogion Cymru amdanynt cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol;~~

~~(f) os yw'r darparwr prawf preifat yn labordy sy'n cynnal gwerthusiadau profion diagnostig ar gyfer profi yn unol â'r Atodlen hon, pan fo wedi gwneud datganiad i'r Ysgrifennydd Gwladol ei fod yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer profion a ddarperir gan y sector preifat ar https://support-covid-19-testing.dhsc.gov.uk/InternationalTesting;~~

~~(g) pan fo wedi darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol restr o'r holl sefydliadau y mae'n gweithio gyda hwy (boed drwy is-gontract neu fel arall) i gynnal y gwasanaeth profi neu i gynnal dilyniannu genomaidd, gan nodi natur y gwasanaeth y mae pob sefydliad yn ei ddarparu, ac wedi diweddaru'r rhestr honno fel y bo'n briodol;~~

~~(h) pan fo'r person sy'n gyfrifol am gymryd y samplau yn bodloni'r gofynion perthnasol ar gyfer achrediad i safon ISO 15189 neu safon ISO/IEC 17025 mewn cysylltiad â chymryd samplau;~~

~~(i) pan fo'r labordy a ddefnyddir gan y darparwr prawf preifat i brosesu samplau yn bodloni'r gofynion perthnasol ar gyfer safon ISO 15189 neu safon ISO/IEC 17025 mewn cysylltiad â gwerthuso'r dull sefydledig o ganfod moleciwlau a dilyniannu genomaidd ar samplau;~~

~~(j) pan fo'n cael yr wybodaeth sy'n ofynnol gan reoliad 6AB(5), ac yn gweinyddu neu'n darparu'r prawf i P heb fod yn hwyrach na diwedd yr ail ddiwrnod ar ôl y diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru;~~

~~(k) pan fo, bob dydd, yn hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol yn ysgrifenedig—~~

~~(i) am nifer y profion y mae wedi eu gwerthu y diwrnod hwnnw, a~~

~~(ii) mewn perthynas â phob prawf a werthwyd ar y diwrnod hwnnw—~~

~~(aa) am y dyddiad y cyrhaeddodd y person y gwerthwyd y prawf mewn cysylltiad ag ef y Deyrnas Unedig;~~

~~(bb) a yw'r person y gwerthwyd y prawf mewn cysylltiad ag ef yn berson nad yw, o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dod i ben pan gyrhaeddodd P Gymru, wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt ai peidio;~~

~~(cc) a yw'r person y gwerthwyd y prawf mewn cysylltiad ag ef yn deithiwr rheoliad 2A ai peidio;~~

~~(dd) am y cyfeirnod prawf a roddwyd i P yn unol â rheoliad 6AB(6);~~

~~(l) pan fo'n dilyniannu pob sampl gyda throthwy cylch o lai na 30 (sy'n cyfateb i 1,000 o gopïau genom firysol fesul mililitr);~~

~~[(la) pan—~~

~~(i) bo sampl i'w dilyniannu yn unol â pharagraff (l), a~~

~~(ii) bo'r dilyniannu i ddigwydd mewn labordy ("y labordy dilyniannu") ac eithrio'r labordy y proseswyd y sampl ynddo yn y lle cyntaf ("y labordy diagnostig"),~~

~~pan fo'n sicrhau bod y labordy dilyniannu yn cael y sampl heb fod yn hwyrach na 24 awr ar ôl i'r labordy diagnostig ddod i wybod am ganlyniad y prosesu cychwynnol;][13]~~

~~(m) mewn cysylltiad â dilyniannu samplau, pan fo rhaid iddo sicrhau lled rhychwant genom cyfeirio o 50% o leiaf a rhychwant o 30 o weithiau o leiaf;~~

~~(n) pan fo, ar gais gan Weinidogion Cymru neu Gonsortiwm Genomeg COVID-19 y DU, yn peri bod samplau ar gael at ddiben dilyniannu deuol;~~

~~(o) pan fo'n cadw ac yn cludo samplau mewn modd sy'n galluogi dilyniannu genomau;~~

~~(p) pan fo ganddo broses ar waith i ddileu darlleniadau dynol o unrhyw ddata a gyflwynir mewn hysbysiad i Iechyd Cyhoeddus Cymru yn unol â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010(**43**);~~

~~(q) os yw'n trefnu gyda pherson arall ("X") i X gyflawni unrhyw elfen o'r un gwasanaeth profi o'r dechrau i'r diwedd ar ei ran, pan fo'r darparwr prawf preifat yn sicrhau bod X yn cydymffurfio â'r canlynol i'r graddau y bo'n berthnasol i gyflawni'r elfen honno—~~

~~(i) paragraffau (b) i (e) ac (g) i (p) o'r is-baragraff hwn;~~

~~(ii) paragraff 2C(2) i (4).~~

~~(2) At ddibenion is-baragraff (1)(h) ac (i), mae person neu labordy (yn ôl y digwydd) yn bodloni'r gofynion perthnasol ar gyfer achrediad i safon pan fo'r person sy'n weithredwr y labordy yn cydymffurfio â gofynion paragraff 2B, fel pe bai cyfeiriad at brawf yn gyfeiriad at brawf diwrnod 2.~~

~~(**43**) O.S. 2010/1546 (Cy. 144), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/232 (Cy. 54).~~

~~(3) Yn y paragraff hwn, ystyr "gwyddonydd clinigol cofrestredig" yw person sydd wedi ei gofrestru fel gwyddonydd clinigol gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal yn unol ag erthygl 5 o Orchymyn Proffesiynau Iechyd 2001(**44**).~~[7]

~~**Profion diwrnod 2: gofynion cyffredinol ar gyfer profion dyfais llif unffordd.**~~

~~**1ZBA.** (1) Mae prawf diwrnod 2 yn cydymffurfio â'r paragraff hwn pan fo'r prawf yn cydymffurfio ag is-baragraff (2) a phan fo—~~

~~(a) yn brawf a ddarperir gan ddarparwr prawf cyhoeddus; neu~~

~~(b) yn brawf a ddarperir gan ddarparwr prawf preifat pan fo'r darparwr prawf preifat yn cydymffurfio â pharagraff 1ZCA.~~

~~(2) Mae prawf yn cydymffurfio â'r is-baragraff hwn—~~

~~(a) pan fo'n brawf ar gyfer canfod y coronafeirws sy'n defnyddio un neu ragor o'r canlynol—~~

~~(i) swabio'r trwyn yn y corgwn canol neu ym mlaen y ffroenau;~~

~~(ii) swabio'r tonsiliau;~~

~~(iii) poer;~~

~~(b) pan fo modd ei adnabod yn unigryw;~~

~~(c) pan fo wedi ei ddarparu yn unol â chyfarwyddiadau defnyddio gweithgynhyrchydd y prawf gan gynnwys, yn benodol, cyfarwyddiadau o ran y defnydd targed, y defnyddiwr targed a gosodiadau'r defnydd targed; a~~

~~(d) pan fo unrhyw ddyfais a ddefnyddir at ddibenion y prawf yn gallu cael ei defnyddio yn unol â Rhan 4 o Reoliadau Dyfeisiadau Meddygol 2002, ac eithrio yn rhinwedd rheoliad 39(2) o'r Rheoliadau hynny yn unig.~~

~~**Profion diwrnod 2: gofynion darparwr prawf preifat ar gyfer profion dyfais llif unffordd.**~~

~~**1ZCA.** (1) Mae darparwr prawf preifat yn cydymffurfio â'r paragraff hwn—~~

~~(a) pan fo'n cydymffurfio â gofynion paragraff 1ZA(1)(a) i (e) a (h);~~

~~(b) pan fo wedi gwneud datganiad i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei fod yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer profion a ddarperir gan y sector preifat a gyhoeddwyd ar gov.uk/guidance/day-2-lateral-flow-tests-for-international-arrivals-minimum-standards-for-providers ar 6 Ionawr 2022 a bod yr Adran wedi cadarnhau yn ysgrifenedig ei fod yn ystyried bod y darparwr yn bodloni'r gofynion hynny;~~

~~(c) pan fo'n parhau i fodloni'r safonau gofynnol y mae'r datganiad a grybwyllir ym mharagraff (b) yn ymwneud â hwy;~~

~~(d) pan fo wedi darparu i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol restr o'r holl sefydliadau y mae'n gweithio gyda hwy (boed drwy is-gontract neu fel arall) i gynnal y gwasanaeth profi, gan nodi natur y gwasanaeth y mae pob sefydliad yn ei ddarparu, ac wedi diweddaru'r rhestr honno fel y bo'n briodol;~~

~~(e) pan fo'n cael yr wybodaeth sy'n ofynnol gan reoliad 6AB(5), ac os yw'n gweinyddu'r prawf i P, ei fod yn gwneud hynny heb fod yn hwyrach na diwedd yr ail ddiwrnod ar ôl y diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru;~~

~~(f) pan fo'n sicrhau nad yw ond yn cael canlyniadau o'r defnydd cyntaf o'r ddyfais;~~

(**44**) O.S. 2002/254. Mae diwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

~~(g) pan fo, bob dydd, yn hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol yn ysgrifenedig—~~

~~(i) am nifer y profion y mae wedi eu gwerthu ar y diwrnod hwnnw, a~~

~~(ii) mewn perthynas â phob prawf a werthwyd ar y diwrnod hwnnw—~~

~~(aa) am y dyddiad y cyrhaeddodd y person y gwerthwyd y prawf mewn cysylltiad ag ef y Deyrnas Unedig,~~

~~(bb) a yw'n brawf adwaith cadwynol polymerasau neu'n brawf dyfais llif unffordd, ac~~

~~(cc) am y cyfeirnod prawf a roddwyd i P yn unol â rheoliad 6AB(6);~~

~~(iii) mewn perthynas â phob prawf y canslwyd ei bryniant ar y diwrnod hwnnw, yr wybodaeth a nodir yn is-baragraff (ii)(aa) i (cc);~~

~~(h) os yw'n trefnu gyda pherson arall ("X") i X gyflawni unrhyw elfen o'r un gwasanaeth profi o'r dechrau i'r diwedd ar ei ran, pan fo'r darparwr prawf yn sicrhau bod X yn cydymffurfio â'r canlynol i'r graddau y maent yn berthnasol i gyflawni'r elfen honno—~~

~~(i) paragraff 1ZA(1)(b) i (e) ac (h) fel y'i cymhwysir gan baragraff (a) o'r is-baragraff hwn;~~

~~(ii) paragraff (c) i (g) o'r is-baragraff hwn;~~

~~(iii) paragraff 2D(2) a (4).~~

~~(2) At ddibenion is-baragraff (1)(h), ystyr "un gwasanaeth profi o'r dechrau i'r diwedd" yw gwasanaeth sy'n cwmpasu unrhyw un neu ragor o'r elfennau a ganlyn pan fônt yn rhan o'r gwasanaeth a gynigir gan y darparwr prawf—~~

~~(a) derbyn yr archeb gan y person sydd i'w brofi;~~

~~(b) darparu'r prawf;~~

~~(c) casglu a phrosesu'r prawf wedi iddo gael ei gymryd;~~

~~(d) dadansoddi'r prawf;~~

~~(e) gwirio canlyniad y prawf;~~

~~(f) darparu hysbysiad o ganlyniad y prawf.~~[24]

~~**[Profion diwrnod 2: gofynion cyffredinol ar gyfer profion dyfais llif unffordd**~~

~~**1ZB.** (1) Mae prawf diwrnod 2 yn cydymffurfio â'r paragraff hwn pan fo'r prawf yn cydymffurfio ag is-baragraff (2) a phan fo—~~

~~(a) yn brawf a ddarperir gan ddarparwr prawf cyhoeddus; neu~~

~~(b) yn brawf a ddarperir gan ddarparwr prawf preifat pan fo'r darparwr prawf preifat yn cydymffurfio â pharagraff 1ZC.~~

~~(2) Mae prawf yn cydymffurfio â'r is-baragraff hwn—~~

~~(a) pan fo'n brawf ar gyfer canfod y coronafeirws sy'n defnyddio un neu ragor o'r canlynol—~~

~~(i) swabio'r trwyn yn y cogwrn canol neu ym mlaen y ffroenau;~~

~~(ii) swabio'r tonsiliau;~~

~~(iii) poer;~~

~~(b) pan fo modd ei adnabod yn unigryw;~~

~~(c) pan fo wedi ei ddarparu yn unol â chyfarwyddiadau defnyddio gweithgynhyrchydd y prawf, gan gynnwys, yn benodol, cyfarwyddiadau o ran y defnydd targed, y defnyddiwr targed a gosodiadau'r defnydd targed; a~~

~~(d) pan fo unrhyw ddyfais a ddefnyddir at ddibenion y prawf yn gallu cael ei defnyddio yn unol â Rhan 4 o Reoliadau Dyfeisiau Meddygol 2002(**45**), ac eithrio yn rhinwedd rheoliad 39(2) o'r Rheoliadau hynny yn unig.]~~[19]

**~~[Profion diwrnod 2: gofynion darparwr prawf preifat ar gyfer profion dyfais llif unffordd~~**

**~~1ZC.~~** ~~(1) Mae darparwr prawf preifat yn cydymffurfio â'r paragraff hwn—~~

~~(a) pan fo'n cydymffurfio â gofynion paragraff 1ZA(1)(a) i (e) ac (h);~~

~~(b) pan fo wedi gwneud datganiad i'r Ysgrifennydd Gwladol ei fod yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer profion a ddarperir gan y sector preifat a gyhoeddwyd ar gov.uk/guidance/day-2-lateral-flow-tests-for-international-arrivals-minimum-standards-for-providers ar 21 Hydref 2021 a bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cadarnhau yn ysgrifenedig ei fod yn ystyried bod y darparwr yn bodloni'r safonau hynny;~~

~~(c) pan fo'n parhau i fodloni'r safonau gofynnol y mae'r datganiad a grybwyllir ym mharagraff (b) yn ymwneud â hwy;~~

~~(d) pan fo wedi darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol restr o'r holl sefydliadau y mae'n gweithio gyda hwy (boed drwy is-gontract neu fel arall) i gynnal y gwasanaeth profi, gan nodi natur y gwasanaeth y mae pob sefydliad yn ei ddarparu, ac wedi diweddaru'r rhestr honno fel y bo'n briodol;~~

~~(e) pan fo'n cael yr wybodaeth sy'n ofynnol gan reoliad 6AB(5), ac os yw'n gweinyddu'r prawf i P, ei fod yn gwneud hynny heb fod yn hwyrach na diwedd yr ail ddiwrnod ar ôl y diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru;~~

~~(f) pan fo ganddo system ar waith i wrthod canlyniadau gan ddyfeisiau a ddefnyddiwyd yn flaenorol;~~

~~(g) pan fo, bob dydd, yn hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol yn ysgrifenedig—~~

~~(i) am nifer y profion y mae wedi eu gwerthu ar y diwrnod hwnnw, a~~

~~(ii) mewn perthynas â phob prawf a werthwyd ar y diwrnod hwnnw—~~

~~(aa) am y dyddiad y cyrhaeddodd y person y gwerthwyd y prawf mewn cysylltiad ag ef y Deyrnas Unedig,~~

~~(bb) a yw'n brawf adwaith cadwynol polymerasau neu'n brawf dyfais llif unffordd, ac~~

~~(cc) am y cyfeirnod prawf a roddwyd i P yn unol â rheoliad 6AB(6);~~

~~(iii) mewn perthynas â phob prawf y canslwyd ei bryniant ar y diwrnod hwnnw, yr wybodaeth a nodir yn is-baragraff (ii)(aa) i (cc);~~

~~(h) os yw'n trefnu gyda pherson arall ("X") i X gyflawni unrhyw elfen o'r un gwasanaeth profi o'r dechrau i'r diwedd ar ei ran, pan fo'r darparwr prawf yn sicrhau bod X yn cydymffurfio â'r canlynol i'r graddau y maent yn berthnasol i gyflawni'r elfen honno—~~

~~(i) paragraff 1ZA(1)(b) i (e) ac (h) fel y'i cymhwysir gan baragraff (a) o'r is-baragraff hwn;~~

~~(ii) paragraff (c) i (g) o'r is-baragraff hwn;~~

~~(iii) paragraff 2D(2) a (4).~~

~~(**45**) O.S. 2002/618.~~

~~(2) At ddibenion is-baragraff (1)(h), ystyr "un gwasanaeth profi o'r dechrau i'r diwedd" yw gwasanaeth sy'n cwmpasu unrhyw un neu ragor o'r elfennau a ganlyn pan fônt yn rhan o'r gwasanaeth a gynigir gan y darparwr prawf—~~

~~(a) derbyn yr archeb gan y person sydd i'w brofi;~~

~~(b) darparu'r prawf;~~

~~(c) casglu a phrosesu'r prawf wedi iddo gael ei gymryd;~~

~~(d) dadansoddi'r prawf;~~

~~(e) gwirio canlyniad y prawf;~~

~~(f) darparu hysbysiad o ganlyniad y prawf.[15]][20]~~

~~**1A.** Yr amgylchiadau a grybwyllir yn rheoliad 6AB(2)(a) yw bod P yn cymryd y prawf diwrnod 2 heb fod yn hwyrach na diwedd yr ail ddiwrnod ar ôl y diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru.~~

~~**1A.** Yr amgylchiadau a grybwyllir yn rheoliad 6AB(2)(a) yw—~~

~~(a) bod P yn cymryd prawf diwrnod 2 heb fod yn hwyrach na diwedd yr ail ddiwrnod ar ôl y diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru, a~~

~~[(b) mewn perthynas â phrawf a ddisgrifir yn rheoliad 6AB(2)(a)(ii)(bb) nad yw wedi ei weinyddu gan ddarparwr prawf, fod P yn darparu i'r darparwr prawf yr wybodaeth a ganlyn o fewn 15 munud i amser darllen y prawf fel y'i pennir gan gyfarwyddiadau defnyddio y gweithgynhyrchydd—~~

~~(i) tystiolaeth ffotograffig sy'n dangos yn glir—~~

~~(aa) y ddyfais brofi yn y fath fodd fel y gellir ei hadnabod fel un sydd wedi ei darparu gan y darparwr prawf,~~

~~(bb) cyfeirnod y prawf a roddwyd yn unol â rheoliad 6AB(6), ac~~

~~(cc) canlyniad y prawf, a~~

~~(ii) y cyfeiriad y gall P gael prawf cadarnhau ynddo yn unol â rheoliad 6E(4).[21]][16]~~

~~**1A.** Yr amgylchiadau a grybwyllir yn rheoliad 6AB(2)(a) yw—~~

~~(a) bod P yn cymryd prawf diwrnod 2 heb fod yn hwyrach na diwedd yr ail ddiwrnod ar ôl y diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru, a~~

~~(b) mewn perthynas â phrawf a grybwyllir yn rheoliad 6AB(2)(a)(ii)(bb) nad yw wedi ei weinyddu gan ddarparwr prawf, fod P yn darparu i'r darparwr prawf yr wybodaeth a ganlyn o fewn 15 munud i amser darllen y prawf fel y'i pennir gan gyfarwyddiadau defnyddio y gweithgynhyrchydd—~~

~~(i) tystiolaeth ffotograffig sy'n dangos yn glir—~~

~~(aa) y ddyfais brofi yn y fath fodd fel y gellir ei hadnabod fel un sydd wedi ei darparu gan ddarparwr y prawf,~~

~~(bb) cyfeirnod y prawf a roddwyd yn unol â rheoliad 6AB(6), ac~~

~~(cc) canlyniad y prawf, a~~

~~(ii) y cyfeiriad y gall P gael prawf cadarnhau ynddo yn unol â rheoliad 6E(4).[25]~~

~~**Gofynion prawf diwrnod 8**~~

~~**2.** Mae prawf diwrnod 8 yn cydymffurfio â'r paragraff hwn—~~

(a) pan fo'n brawf lled-feintiol ar gyfer canfod y coronafeirws sy'n targedu o leiaf ddau enyn SARS-CoV-2 y gellir gwahaniaethu rhyngddynt ac eithrio'r genyn S a rheolaethau cyfeirio perfformiad,

(b) pan fo gweithgynhyrchydd unrhyw ddyfais a ddefnyddir at ddibenion y prawf yn datgan—

(i) bod y ddyfais yn defnyddio dull echdynnu moleciwlau,

(ii) bod gan y ddyfais benodolrwydd a sensitifrwydd sy'n fwy na 95% (a chyfwng hyder dwyochrog o 95% sydd uwchben 90% yn llwyr), a

(iii) bod gan y ddyfais derfyn canfod o lai na 1000 copi SARS-CoV-2 y mililitr, neu gyfwerth â hynny, a

(c) pan fo unrhyw ddyfais a ddefnyddir at ddibenion y prawf—

(i) yn gallu cael ei defnyddio yn unol â Rhan 4 o Reoliadau Dyfeisiau Meddygol 2002, ac eithrio yn rhinwedd rheoliad 39(2) o'r Rheoliadau hynny yn unig, a

(ii) wedi ei dilysu ddim mwy na 18 mis cyn gweinyddu'r prawf neu ei ddarparu i P.

**[Gofynion prawf diwrnod 8 Profion diwrnod 8: gofynion cyffredinol[8]]**

**2.** [(1) Mae prawf diwrnod 8 yn cydymffurfio â'r paragraff hwn pan fo'r prawf yn cydymffurfio ag is-baragraff (2) a phan fo—

(a) yn brawf a ddarperir gan ddarparwr prawf cyhoeddus, neu

(b) yn brawf a ddarperir gan ddarparwr prawf preifat pan fo'r darparwr prawf preifat yn cydymffurfio â pharagraff 2ZA.

(2)][9] Mae prawf diwrnod 8 yn cydymffurfio â'r paragraff hwn—

(a) pan fo'n brawf lled-feintiol ar gyfer canfod y coronafeirws—

(i) sy'n targedu o leiaf ddau enyn SARS-CoV-2 y gellir gwahaniaethu rhyngddynt ac eithrio'r genyn S a rheolaethau cyfeirio perfformiad,

(ii) sy'n cynnwys rheolwaith sicrwydd in silico yn erbyn pob amrywiolyn sy'n destun pryder, a

(iii) sy'n cynhyrchu toddiant prawf sy'n darparu asid niwclëig a echdynnwyd sy'n addas ar gyfer dilyniannu genom cyfan gan ddefnyddio dull penodedig

(b) pan fo gweithgynhyrchydd unrhyw ddyfais a ddefnyddir at ddibenion y prawf yn datgan—

(i) bod y ddyfais yn defnyddio dull sefydledig o ganfod moleciwlau,

(ii) bod gan y ddyfais benodolrwydd sy'n fwy na 97% neu'n gyfwerth â hynny (neu gyfwng hyder dwyochrog o 95% sydd uwchben 95% yn llwyr),

(iii) bod gan y ddyfais sensitifrwydd sy'n fwy na 95% neu'n gyfwerth â hynny (neu gyfwng hyder dwyochrog o 95% sydd uwchben 90% yn llwyr),

(iv) bod gan y ddyfais derfyn canfod o lai na 1000 copi SARS-CoV-2 y mililitr, neu gyfwerth â hynny, a

(v) bod y ddyfais yn addas ar gyfer canfod pob amrywiolyn sy'n destun pryder, ac

(c) pan fo unrhyw ddyfais a ddefnyddir at ddibenion y prawf—

(i) yn gallu cael ei defnyddio yn unol â Rhan 4 o Reoliadau Dyfeisiau Meddygol 2002(1), ac eithrio yn rhinwedd rheoliad 39(2) o'r Rheoliadau hynny yn unig, a

(ii) wedi ei dilysu ddim mwy na 18 mis cyn gweinyddu'r prawf neu ei ddarparu i P.[3]

**Profion diwrnod 8: gofynion o ran darparwr prawf preifat**

**2ZA.** (1) At ddibenion paragraff 1(1)(b), mae darparwr prawf preifat yn cydymffurfio â'r paragraff hwn—

(a) pan fo'n cydymffurfio â gofynion paragraff 1ZA(1)(a) i (e) fel pe bai unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at brawf diwrnod 2 yn gyfeiriad at brawf diwrnod 8;

(b) os yw'r darparwr prawf preifat yn labordy sy'n cynnal gwerthusiadau profion diagnostig ar gyfer profi yn unol â'r Atodlen hon, pan fo wedi gwneud datganiad i'r Ysgrifennydd Gwladol ei fod yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer profion a ddarperir gan y sector preifat ar https://support-covid-19-testing.dhsc.gov.uk/InternationalTesting;

(c) pan fo wedi darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol restr o'r holl sefydliadau y mae'n gweithio gyda hwy (boed drwy is-gontract neu fel arall) i gynnal y gwasanaeth profi neu i gynnal dilyniannu genomaidd, gan nodi natur y gwasanaeth y mae pob sefydliad yn ei ddarparu, ac wedi diweddaru'r rhestr honno fel y bo'n briodol;

(d) pan fo'r person sy'n gyfrifol am gymryd y samplau yn bodloni'r gofynion perthnasol ar gyfer achrediad i safon ISO 15189 neu safon ISO/IEC 17025 mewn cysylltiad â chymryd samplau;

(e) pan fo'r labordy a ddefnyddir gan y darparwr prawf preifat i brosesu samplau yn bodloni'r gofynion perthnasol ar gyfer safon ISO 15189 neu safon ISO/IEC 17025 mewn cysylltiad â gwerthuso'r dull sefydledig o ganfod moleciwlau a dilyniannu genomaidd ar samplau;

(f) pan fo'n cael yr wybodaeth sy'n ofynnol gan reoliad 6AB(5), ac yn gweinyddu neu'n darparu'r prawf i P heb fod yn hwyrach na diwedd yr wythfed diwrnod ar ôl y diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru;

(g) pan fo, bob dydd, yn hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol yn ysgrifenedig—

(i) am nifer y profion y mae wedi eu gwerthu ar y diwrnod hwnnw, a

(ii) mewn perthynas â phob prawf a werthwyd ar y diwrnod hwnnw—

(aa) am y dyddiad y cyrhaeddodd y person y gwerthwyd y prawf mewn cysylltiad ag ef y Deyrnas Unedig;

(bb) a yw'r person y gwerthwyd y prawf mewn cysylltiad ag ef yn deithiwr rheoliad 2A ai peidio;

(cc) am y cyfeirnod prawf a roddwyd i P yn unol â rheoliad 6AB(6);

(h) pan fo'n dilyniannu pob sampl gyda throthwy cylch o lai na 30 (sy'n cyfateb i 1,000 o gopïau genom firysol fesul mililitr);

[(ha) pan—

(i) bo sampl i'w dilyniannu yn unol â pharagraff (h), a

(ii) bo'r dilyniannu i ddigwydd mewn labordy ("y labordy dilyniannu") ac eithrio'r labordy y proseswyd y sampl ynddo yn y lle cyntaf ("y labordy diagnostig"),

pan fo'n sicrhau bod y labordy dilyniannu yn cael y sampl heb fod yn hwyrach na 24 awr ar ôl i'r labordy diagnostig ddod i wybod am ganlyniad y prosesu cychwynnol;][14]

(i) mewn cysylltiad â dilyniannu samplau, pan fo rhaid iddo sicrhau lled rhychwant genom cyfeirio o 50% o leiaf a rhychwant o 30 o weithiau o leiaf;

(j) pan fo, ar gais gan Weinidogion Cymru neu Gonsortiwm Genomeg COVID-19 y DU, yn peri bod samplau ar gael at ddiben dilyniannu deuol;

(k) pan fo'n cadw ac yn cludo samplau mewn modd sy'n galluogi dilyniannu genomau;

(l) pan fo ganddo broses ar waith i ddileu darlleniadau dynol o unrhyw ddata a gyflwynir mewn hysbysiad i Iechyd Cyhoeddus Cymru yn unol â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010;

(m) os yw'n trefnu gyda pherson arall ("X") i X gyflawni unrhyw elfen o'r un gwasanaeth profi o'r dechrau i'r diwedd ar ei ran, pan fo'r darparwr prawf preifat yn sicrhau bod X yn cydymffurfio â'r canlynol i'r graddau y bo'n berthnasol i gyflawni'r elfen honno—

(i) paragraff 1ZA(1)(b) i (e) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (1)(a);

(ii) is-baragraff (1)(c) i (l);

(iii) paragraff 2C(2) i (4).

(2) At ddibenion is-baragraff (1)(d) ac (e), mae person neu labordy (yn ôl y digwydd) yn bodloni'r gofynion perthnasol ar gyfer achrediad i safon pan fo'r person sy'n weithredwr y labordy yn cydymffurfio â gofynion paragraff 2B, fel pe bai cyfeiriad at brawf yn gyfeiriad at brawf diwrnod 8.[10]

**2A.** Yr amgylchiadau a grybwyllir yn rheoliad 6AB(2)(b) yw bod P yn cymryd y prawf diwrnod 8 heb fod yn hwyrach yn gynharach[27] na diwedd y seithfed diwrnod ar ôl y diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru

**Achrediad UKAS**

**2B.** (1) Cyn darparu prawf, rhaid i ddarparwr prawf preifat fod wedi ei achredu gan UKAS i'r safon ISO berthnasol.

(2) Os yw'r darparwr prawf preifat yn trefnu gyda pherson arall ("X") i X gyflawni unrhyw elfen o'r gwasanaeth profi ar ei ran, rhaid i'r darparwr prawf preifat—

(a) sicrhau bod X yn cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth yn y paragraff hwn sy'n berthnasol i gyflawni'r elfen honno, a

(b) yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), beidio â darparu profion o dan drefniant gydag X os yw X yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth o'r fath.

(3) Nid yw is-baragraff (2)(b) yn gymwys i brawf a weinyddwyd cyn y dyddiad y methodd X â chydymffurfio â'r paragraff hwn.

(4) Yn y paragraff hwn—

ystyr "y safon ISO berthnasol" ("*the relevant ISO standard*") yw—

(a) yn achos prawf y mae'n ofynnol ei brosesu mewn labordy, safon ISO 15189 neu safon ISO/IEC 17025, a

(b) yn achos prawf yn y man lle y rhoddir gofal, safon ISO 15189 a safon ISO 22870(**46**), ac at y diben hwn ystyr "prawf yn y man lle y rhoddir gofal" yw prawf a brosesir y tu allan i amgylchedd labordy;

ystyr "UKAS" ("*UKAS*") yw Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig, cwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi ei gorffori yng Nghymru a Lloegr o dan y rhif 3076190(**47**).

**Hysbysu am ganlyniadau profion**

**2C.** (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i ddarparwr prawf preifat sy'n gweinyddu neu'n darparu prawf i P o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn rheoliad 6AB a pharagraffau 1 i 2A o'r Atodlen hon.

(2) Rhaid i'r darparwr prawf preifat, o fewn 48 awr i'r adeg pan fo'r labordy diagnostig yn cael y sampl a gymerwyd at ddibenion y prawf—

(a) hysbysu P a, phan fo'n gymwys, unrhyw berson sy'n trefnu'r prawf ar ran P, drwy e-bost, llythyr neu neges destun, am ganlyniad prawf P, neu

(b) peri bod canlyniad prawf P ar gael i P a, phan fo'n gymwys, i unrhyw berson sy'n trefnu'r prawf ar ran P, drwy borthol diogel ar y we,

yn unol ag is-baragraff (3).

(3) Rhaid i'r hysbysiad am ganlyniad prawf P gynnwys enw, dyddiad geni, rhif pasbort, neu gyfeirnod dogfen deithio (fel y bo'n briodol) P, enw a manylion cyswllt y darparwr prawf preifat a chyfeirnod prawf P, a rhaid ei gyfleu mewn modd sy'n hysbysu P a oedd y prawf yn negyddol, yn bositif, neu'n amhendant.[11]

**Hysbysu am ganlyniadau profion: profion dyfais llif unffordd**

**2E** (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i ddarparwr prawf preifat sy'n gweinyddu neu'n darparu prawf o fewn ystyr rheoliad 6AB(2)(a)(ii)(bb) i P o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 1A.

(2) Rhaid i'r darparwr prawf preifat, o fewn 24 awr i'r digwyddiad perthnasol—

(a) hysbysu P a, phan fo'n gymwys, unrhyw berson sy'n trefnu'r prawf ar ran P, drwy e-bost, llythyr neu neges destun, am ganlyniad prawf P, neu

(b) peri bod canlyniad prawf P ar gael i P a, phan fo'n gymwys, i unrhyw berson sy'n trefnu'r prawf ar ran P, drwy borthol diogel ar y we,

yn unol ag is-baragraff (4).

(3) Ym mharagraff (2), ystyr "digwyddiad perthnasol" yw—

(a) pan weinyddodd y darparwr prawf y prawf, yr adeg y penderfynodd y darparwr prawf ar ganlyniadau'r prawf;

(b) pan na weinyddodd y darparwr prawf y prawf, yr adeg y cafodd y darparwr prawf yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei darparu gan baragraff 1A(b).

(4) Rhaid i'r hysbysiad am ganlyniad prawf P gynnwys enw, dyddiad geni, rhif pasbort, neu gyfeirnod dogfen deithio (fel y bo'n briodol) P, enw a manylion cyswllt y darparwr

(**46**) Cyhoeddwyd ISO 22870 "Point-of-care testing (POCT) requirements for quality and competence" ym mis Tachwedd 2016.

(**47**) *Gweler* O.S. 2009/3155, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/696, ar gyfer swyddogaethau UKAS. Gwnaed O.S. 2009/3155 ac O.S. 2019/696 o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68) ac maent wedi eu harbed yn unol â hynny yn rhinwedd adran 2(2)(a) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16).

prawf a chyfeirnod prawf P, a rhaid ei gyfleu mewn modd sy'n hysbysu P a oedd y prawf yn negyddol, yn bositif neu'n amhendant.[26]

**[Hysbysu am ganlyniadau profion: profion dyfais llif unffordd**

**2D.** (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i ddarparwr prawf preifat sy'n gweinyddu neu'n darparu prawf o fewn ystyr rheoliad 6AB(2)(a)(ii)(bb) i P o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 1A.

(2) Rhaid i'r darparwr prawf preifat, o fewn 24 awr i'r digwyddiad perthnasol—

(a) hysbysu P a, phan fo'n gymwys, unrhyw berson sy'n trefnu'r prawf ar ran P, drwy e-bost, llythyr neu neges destun, am ganlyniad prawf P, neu

(b) peri bod canlyniad prawf P ar gael i P a, phan fo'n gymwys, i unrhyw berson sy'n trefnu'r prawf ar ran P, drwy borthol diogel ar y we,

yn unol ag is-baragraff (4).

(3) Ym mharagraff (2), ystyr "digwyddiad perthnasol" yw—

(a) pan weinyddodd y darparwr prawf y prawf, yr adeg y penderfynodd y darparwr prawf ar ganlyniadau'r prawf;

(b) pan na weinyddodd y darparwr prawf y prawf, yr adeg y cafodd y darparwr prawf yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei darparu gan baragraff 1A(b).

(4) Rhaid i'r hysbysiad am ganlyniad prawf P gynnwys enw, dyddiad geni, rhif pasbort, neu gyfeirnod dogfen deithio (fel y bo'n briodol) P, enw a manylion cyswllt y darparwr prawf a chyfeirnod prawf P, a rhaid ei gyfleu mewn modd sy'n hysbysu P a oedd y prawf yn negyddol, yn bositif, neu'n amhendant.[17]][22]

**3.** **Dehongli**

Yn yr Atodlen hon—

(a) ystyr "dull penodedig" yw dull dilyniant wedi ei dargedu sy'n benodol i SARS-CoV-2 neu—

(i) dull amplicon cyfatebol, neu

(ii) dull cipio abwyd dilyniant cyfatebol;

(b) ystyr "wedi ei dilysu", mewn perthynas â dyfais, yw y cadarnhawyd bod gan y ddyfais sensitifrwydd o 97% o leiaf a phenodolrwydd o 99% o leiaf ar gyfer o leiaf 150 o samplau positif a 250 o samplau negyddol, gan—

(i) Gweinidogion Cymru,

(ii) y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, neu

(iii) labordy sydd wedi ei achredu gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig ("UKAS") i safon ISO 15189 neu safon ISO/IEC 17025, ac eithrio labordy sy'n prosesu profion a ddarperir gan ddarparwr y prawf at ddibenion yr Atodlen hon, neu sy'n eiddo i ddarparwr y prawf;

(c) ystyr "amrywiolyn sy'n destun pryder" yw amrywiolyn SARS-CoV-2 a nodwyd mewn dynodiad a wnaed gan y Grŵp arbenigol perthnasol yn y DU (NERVTAG ar hyn o bryd) at ddibenion y Rheoliadau hyn ac a gyhoeddir mewn ffordd y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol.

(d) ystyr "un gwasanaeth profi o'r dechrau i'r diwedd" [,ac eithrio ym mharagraff 1ZCA (1)(H),[28]] [[, ac eithrio ym mharagraff 1ZC(1)(h),[18]][23]] yw gwasanaeth sy'n cwmpasu derbyn yr archeb gan y person sydd i'w brofi, casglu a phrosesu'r

~~sampl sydd i'w phrofi, cynnal dilyniannu genomaidd a darparu canlyniad y prawf i P.~~[12]

~~Nodiadau:~~

~~1 Mewnosodwyd gan reoliad 14 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021 (4.00am 19/07/21)~~

~~2 Mewnosodwyd gan reoliad 7(2)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 4) 2021 (4.00am 23/08/21~~

~~3 Amnewidiwyd gan reoliad 7(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 4) 2021 (23/08/21)~~

~~4 Amnewidiwyd gan reoliad 7(2)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Hysbysu) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (21/09/21)~~

~~5 Mewnosodwyd gan reoliad 7(2)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Hysbysu) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (21/09/21)~~

~~6 Amnewidiwyd gan reoliad 7(2)(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Hysbysu) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (21/09/21)~~

~~7 Mewnosodwyd gan reoliad 7(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Hysbysu) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (21/09/21)~~

~~8 Amnewidiwyd gan reoliad 7(4)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Hysbysu) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (21/09/21)~~

~~9 Mewnosodwyd gan reoliad 7(4)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Hysbysu) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (21/09/21)~~

~~10 Mewnosodwyd gan reoliad 7(5) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Hysbysu) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (21/09/21)~~

~~11 Mewnosodwyd gan reoliad 7(6) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Hysbysu) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (21/09/21)~~

~~12 Mewnosodwyd gan reoliad 7(7) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Hysbysu) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (21/09/21)~~

~~13 Mewnosodwyd gan reoliad 7(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) 2021 (4.00am 04/10/21)~~

~~14 Mewnosodwyd gan reoliad 7(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) 2021 (4.00am 04/10/21)~~

~~15 Mewnosodwyd gan reoliad 11(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 31/10/21)~~

~~16 Amnewidiwyd gan reoliad 11(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 31/10/21)~~

~~17 Mewnosodwyd gan reoliad 11(4) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 31/10/21)~~

~~18 Mewnosodwyd gan reoliad 11(5) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021 (4.00am 31/10/21)~~

~~19 Hepgorwyd gan reoliad 13(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21)~~

~~20 Hepgorwyd gan reoliad 13(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21)~~

[21] ~~Hepgorwyd gan reoliad 13(4) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21)~~

[22] ~~Hepgorwyd gan reoliad 13(5) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21)~~

[23] ~~Hepgorwyd gan reoliad 13(6) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 (4.00am 30/11/21)~~

[24] ~~Mewnosodwyd gan reoliad 13(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 (4.00am 09/01/22)~~

[25] ~~Amnewidiwyd gan reoliad 13(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 (4.00am 09/01/22)~~

[26] ~~Mewnosodwyd gan reoliad 13(4) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 (4.00am 09/01/22)~~

[27] ~~Amnewidiwyd gan reoliad 13(5) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 (4.00am 09/01/22)~~

[28] ~~Mewnosodwyd gan reoliad 13(6) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 (4.00am 09/01/22)~~

# ~~ATODLEN 1D~~

## ~~Rheoliad 6K~~

## ~~Profion gweithlu~~

**~~Dehongli Atodlen 1D~~**

~~**1.**—Yn yr Atodlen hon~~

~~ystyr "P" ("*P*") yw person y mae'n ofynnol iddo gymryd profion gweithlu o dan reoliad 6K (profi'r gweithlu);~~

~~ystyr "prawf gweithlu" ("*workforce test*") yw unrhyw un neu ragor o'r categorïau o brawf gweithlu a ddisgrifir yn rheoliad 6K(6).~~

**~~Gofyniad ar ôl methiant i gymryd prawf~~**

~~**2.**—(1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys pan fo P yn methu â chymryd prawf gweithlu y mae'n ofynnol i P ei gymryd o dan reoliad 6K.~~

~~(2) Pan fo'r is-baragraff hwn yn gymwys, rhaid i P ynysu mewn mangre addas tan y cynharaf o'r canlynol—~~

~~(a) diwedd y 14eg diwrnod ar ôl y diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru; neu~~

~~(b) yr adeg y mae P yn cael canlyniad prawf gweithlu negyddol.~~

~~(3) Rhaid i P gydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau cymwys yn rheoliad 6K(2) yn ystod unrhyw gyfnod y mae'n ofynnol i P ynysu yn unol ag is-baragraff (2).~~

~~(4) Pan fo'n ofynnol i P ynysu yn unol ag is-baragraff (2), mae rheoliad 10(4) yn gymwys.~~

**~~Goblygiadau canlyniadau prawf~~**

~~**3.**—(1) Pan fo prawf gweithlu a gymerir gan P yn unol â rheoliad 6K yn cynhyrchu canlyniad positif—~~

(a) rhaid i P, cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol, gymryd prawf pellach sy’n cydymffurfio â’r gofynion ar gyfer prawf diwrnod 2 a bennir ym mharagraff 1 o Atodlen 1C;

(b) rhaid i P ynysu mewn mangre addas hyd ddiwedd y 10fed diwrnod ar ôl y diwrnod y cymerodd P y prawf.

(2) Pan fo’n ofynnol i P ynysu yn unol ag is-baragraff (1)(b), mae rheoliad 10(4) yn gymwys.

(3) Pan fo prawf gweithlu a gymerir gan P yn unol â rheoliad 6K yn cynhyrchu canlyniad positif—

(a) os oedd y prawf hwnnw yn brawf gweithlu a gymerwyd ar gyfer diwrnod 2, nid yw’n ofynnol i P gymryd prawf gweithlu ar gyfer diwrnod 5 na diwrnod 8;

(b) os oedd y prawf hwnnw yn brawf gweithlu a gymerwyd ar gyfer diwrnod 5, nid yw’n ofynnol i P gymryd prawf gweithlu ar gyfer diwrnod 8.

(4) Pan fo prawf pellach a gymerir yn unol ag is-baragraff (1)(a) yn cynhyrchu canlyniad negyddol, mae’r paragraff hwn yn gymwys i P o’r adeg yr hysbysir P am y canlyniad negyddol hwnnw fel pe bai’r prawf gweithlu a gymerwyd gan P yn unol â rheoliad 6K wedi cynhyrchu canlyniad negyddol (ac, yn unol â hynny, o’r adeg honno, nid yw’n ofynnol i P ynysu mwyach).

(5) Pan fo prawf gweithlu a gymerir gan P yn unol â rheoliad 6K yn cynhyrchu canlyniad amhendant, rhaid i P, cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol, gynnal prawf gweithlu pellach ac mae’r prawf gweithlu pellach hwnnw i’w drin fel prawf gweithlu arall o fewn ystyr rheoliad 6K(4) (gofyniad i gymryd profion gweithlu).

**Dyletswyddau ar gyflogwyr**

**4.**—(1) Rhaid i gyflogwr sydd â mwy na 50 o gyflogeion sy’n gyflogwr i unrhyw berson y mae’n ofynnol iddo gymryd profion gweithlu neu sydd â chyfrifoldeb dros unrhyw weithiwr asiantaeth y mae’n ofynnol iddo gymryd profion gweithlu, gymryd camau rhesymol i hwyluso cymryd y profion hynny gan y person neu’r gweithiwr asiantaeth hwnnw yn unol â’r Rheoliadau hyn.

(2) Wrth gyflawni’r ddyletswydd o dan is-baragraff (1), rhaid i gyflogwr roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru at ddibenion y paragraff hwn.

(3) Ym mharagraff (1) mae gan gyflogwr gyfrifoldeb dros weithiwr asiantaeth—

(a) os yw’r gweithiwr asiantaeth yn cael ei gyflenwi neu y mae i’w gyflenwi gan berson (“asiant”) i’r cyflogwr o dan gontract neu drefniadau eraill a wneir rhwng yr asiant a’r cyflogwr; a

(b) os nad yw’r gweithiwr asiantaeth—

(i) yn weithiwr oherwydd absenoldeb contract gweithiwr rhwng y gweithiwr asiantaeth a’r asiant neu’r cyflogwr, neu

(ii) yn barti i gontract y mae’r gweithiwr asiantaeth yn ymrwymo oddi tano i wneud y gwaith ar gyfer parti arall i gontract y mae ei statws, yn rhinwedd y contract, yn statws cleient neu gwsmer i unrhyw broffesiwn neu ymgymeriad busnes a gynhelir gan y gweithiwr asiantaeth.

**Paratowyd y ddogfen hon gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo darllenwyr y ddeddfwriaeth, ond nid yw'n fersiwn swyddogol o'r Offeryn Statudol neu'r Nodyn Esboniadol**

# ~~ATODLEN 1E~~

~~Rheoliad 6L~~

## ~~Digwyddiadau profi penodedig~~

~~Cylchdaith Golff Ewrop – Pencampwriaeth Agored Cazoo~~[1]

~~R & A – Cwpan Curtis~~[2]

~~Nodiadau:~~

~~1 Mewnosodwyd gan reoliad 14 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021 (4.00am 19/07/21)~~

~~2 Mewnosodwyd gan reoliad 6 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 4) 2021 (4.00am 08/08/21)~~

# ~~ATODLEN 2~~

~~Rheoliadau 3(2), 7(4)(b) and 9~~

## ~~Personau esempt~~

## ~~RHAN 1~~

### ~~Personau nad yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheoliad 4, 5, 7 nac 8~~

~~**1.**—(1) Person—~~

~~(a) sy'n aelod o genhadaeth ddiplomyddol yn y Deyrnas Unedig;~~

~~(b) sy'n aelod o swyddfa gonsylaidd yn y Deyrnas Unedig;~~

~~(c) sy'n swyddog neu'n was i sefydliad rhyngwladol;~~

~~(d) a gyflogir gan sefydliad rhyngwladol fel arbenigydd neu ar genhadaeth;~~

~~(e) sy'n gynrychiolydd i sefydliad rhyngwladol;~~

~~(f) sy'n gynrychiolydd mewn cynhadledd ryngwladol neu gynhadledd y Deyrnas Unedig yn yr Deyrnas Unedig y rhoddir breintiau a breinryddidau iddo yn y Deyrnas Unedig;~~

~~(g) sy'n aelod o staff swyddogol cynrychiolydd i sefydliad rhyngwladol, neu berson sy'n dod o fewn paragraff (f);~~

~~(h) a ddisgrifir ym mharagraff (a) neu (b) sy'n pasio drwy'r Deyrnas Unedig i gychwyn neu barhau â'i swyddogaethau ar genhadaeth ddiplomyddol neu mewn swyddfa gonsylaidd mewn gwlad neu diriogaeth arall, neu i ddychwelyd i wlad ei genedligrwydd;~~

~~(i) sy'n gynrychiolydd i wlad dramor neu diriogaeth dramor sy'n teithio i'r Deyrnas Unedig i gynnal busnes swyddogol gyda'r Deyrnas Unedig;~~

~~(j) sy'n gynrychiolydd llywodraeth i diriogaeth dramor Brydeinig;~~

(k) sy'n gludwr diplomyddol neu'n gludwr consylaidd;

(l) sy'n aelod o'r teulu sy'n ffurfio rhan o aelwyd person sy'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o baragraffau (a) i (k).

(2) Yr amodau y cyfeirir atynt yn rheoliad 9(2)(a) 9(2)(bb)[1] (personau nad yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheoliad 7 a 8) yw—

(a) bod pennaeth perthnasol y genhadaeth, y swyddfa gonsylaidd, y sefydliad rhyngwladol, neu'r gynhadledd, y swyddfa sy'n cynrychioli tiriogaeth dramor yn y Deyrnas Unedig neu Lywodraethwr tiriogaeth dramor Brydeinig (yn ôl y digwydd), neu berson sy'n gweithredu ar eu awdurdod, yn cadarnhau mewn ysgrifen'i'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu—

(iii) ei bod yn ofynnol i P ymgymryd â gwaith sy'n hanfodol i weithrediad y genhadaeth, y swyddfa gonsylaidd, y sefydliad rhyngwladol neu'r gynhadledd, neu'r swyddfa, neu i ymgymryd â gwaith sy'n hanfodol i'r wlad dramor a gynrychiolir gan y genhadaeth neu'r swyddfa gonsylaidd, y diriogaeth dramor a gynrychiolir gan y swyddfa neu'r diriogaeth dramor Brydeinig a

(iv) na ellir ymgymryd â'r gwaith hwnnw tra bo'r person yn cydymffurfio â rheoliad 7 neu 8, a

(b) cyn i'r person gyrraedd y Deyrnas Unedig, bod y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu—

(i) wedi rhoi cadarnhad mewn ysgrifen i'r person sy'n rhoi'r cadarnhad y cyfeirir ato ym mharagraff (a) ei fod wedi cael y cadarnhad hwnnw, a

(ii) os yw'r person yn gynrychiolydd i wlad neu diriogaeth dramor, bod y Swyddfa wedi rhoi cadarnhad wedyn mewn ysgrifen i'r person sy'n rhoi'r cadarnhad y cyfeirir ato ym mharagraff (a) bod y person yn teithio i'r Deyrnas Unedig i gynnal busnes swyddogol gyda'r Deyrnas Unedig ac nad yw'n ofynnol iddo gydymffurfio â rheoliad 7 neu 8.

(3) At ddibenion y paragraff hwn—

(a) ystyr "cludydd consylaidd" yw person sydd wedi cael dogfen swyddogol gan y Wladwriaeth y mae'n gweithredu ar ei rhan sy'n cadarnhau ei statws fel cludydd consylaidd yn unol ag Erthygl 35(5) o Gonfensiwn Fienna ar Gysylltiadau Consylaidd 1963,

(b) ystyr "swyddfa gonsylaidd" yw unrhyw gonsyliaeth gyffredinol, consyliaeth, is-gonsyliaeth neu asiantaeth gonsylaidd,

(c) ystyr "cludydd diplomyddol" yw person sydd wedi cael dogfen swyddogol gan y Wladwriaeth y mae'n gweithio ar ei rhan sy'n cadarnhau ei statws fel cludydd diplomyddol yn unol ag Erthygl 27(5) o Gonfensiwn Fienna ar Gysylltiadau Consylaidd 1961,

(d) ystyr "sefydliad rhyngwladol" yw sefydliad rhyngwladol y rhoddwyd breintiau a breinryddidau iddo yn y Deyrnas Unedig,

(e) ystyr "aelod o swyddfa gonsylaidd" yw swyddog consylaidd, gweithiwr consylaidd ac aelod o staff y gwasanaeth yn unol â'r diffiniadau o "consular officer", "consular employee" a "member of the service staff" yn Atodlen 1 i Ddeddf Cysylltiadau Consylaidd 1968(**48**), ac mae i "pennaeth swyddfa gonsylaidd" yr ystyr a roddir i "head of consular post" yn yr Atodlen honno,

(f) ystyr "aelod o genhadaeth ddiplomyddol" yw pennaeth y genhadaeth, aelodau o'r staff diplomyddol, aelodau o'r staff gweinyddol a thechnegol ac aelodau o staff y gwasanaeth yn unol â'r diffiniadau o "head of the mission", "members of the

(**48**) 1968 p.18. Ceir diwygiadau ond nid yw'r un yn berthnasol.

diplomatic staff", "members of the administrative and technical staff" a "members of the service staff" yn Atodlen 1 i Ddeddf Breintiau Diplomyddol 1964(**49**).

(4) Nid yw'r paragraff hwn yn rhagfarnu unrhyw freinryddid rhag awdurdodaeth neu anhydoredd a roddir i unrhyw berson a ddisgrifir yn is-baragraff (1) o dan gyfraith Cymru a Lloegr ar wahân i'r Rheoliadau hyn.

**2.**—(1) Gwas i'r Goron neu gontractwr llywodraeth—

(a) y mae'n ofynnol iddo ymgymryd â gwaith llywodraeth hanfodol sy'n gysylltiedig â ffin y Deyrnas Unedig yn y Deyrnas Unedig o fewn 10 diwrnod o gyrraedd y Deyrnas Unedig, neu,

(b) sy'n ymgymryd â gwaith llywodraeth hanfodol sy'n gysylltiedig â ffin y Deyrnas Unedig y tu allan i'r Deyrnas Unedig ond—

(i) ei bod yn ofynnol iddo ddychwelyd i'r Deyrnas Unedig dros dro, a

(ii) y bydd wedyn yn ymadael er mwyn ymgymryd â gwaith llywodraeth hanfodol sy'n gysylltiedig â ffin y Deyrnas Unedig y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

(2) At ddibenion is-baragraff (1) a pharagraff 3—

(a) mae i "gwas i'r Goron" yr ystyr a roddir i "Crown servant" yn adran 12(1)(a) i (e) o Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989(**50**),

(b) ystyr "gwaith llywodraeth hanfodol" yw gwaith sydd wedi ei ddynodi felly gan yr Adran berthnasol neu'r cyflogwr perthnasol,

(c) mae i "contractwr llywodraeth" yr ystyr a roddir i "government contractor" yn adran 12(2) o'r Ddeddf honno.

**3.**—(1) Person sy'n was i'r Goron, yn gontractwr llywodraeth neu'n aelod o lu ar ymweliad—

(a) y mae'n ofynnol iddo ymgymryd â gwaith sy'n angenrheidiol er mwyn i weithgareddau amddiffyn hanfodol gael eu cyflawni,

(aa) sydd wedi teithio o wlad neu diriogaeth esempt ar lestr neu awyren a weithredir gan luoedd arfog Ei Mawrhydi, neu sy'n eu cefnogi, neu a weithredir gan lu ar ymweliad neu sy'n ei gefnogi, ac nad oes unrhyw bersonau wedi mynd ar y llestr hwnnw neu'r awyren honno, nad yw wedi docio mewn unrhyw borthladd nac wedi glanio mewn unrhyw wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu

(b) sydd wedi bod ar lestr a weithredir gan Wasanaeth Llyngesol ei Mawrhydi, neu sy'n ei gefnogi, neu gan lu ar ymweliad neu i'w gefnogi am gyfnod di-dor o 10 o ddiwrnodau o leiaf yn union cyn iddo gyrraedd ac nad yw'r llestr hwnnw wedi codi unrhyw bersonau nac wedi glanio mewn unrhyw borthladd môr mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt yn ystod y cyfnod hwnnw.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)—

(a) mae i "amddiffyn" yr ystyr a roddir i "defence" yn adran 2(4) o Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989(**51**),

(**49**) 1964 p. 81. Ceir diwygiadau ond nid yw'r un yn berthnasol.

(**50**) 1989 p. 6. Diwygiwyd adran 12 gan baragraff 22 o Atodlen 10 i Ddeddf Lluoedd wrth Gefn 1996 (p. 14), gan baragraff 30 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38), gan baragraff 26 o Atodlen 8 i Ddeddf yr Alban 1998 (p. 46), gan baragraff 9(3) o Atodlen 13 i Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (p. 47), gan baragraff 9 o Atodlen 6 i Ddeddf yr Heddlu (Gogledd Iwerddon) 2000 (p. 32), gan baragraff 6 o Atodlen 14 i Ddeddf Ynni 2004 (p. 20), gan baragraff 58 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005, gan baragraff 34 o Atodlen 10, i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 1 o Atodlen 12 iddi, a chan baragraff 36 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22).

(**51**) 1989 p. 6.

(b) ystyr "llu ar ymweliad" yw unrhyw gorfflu, criw neu adran o luoedd gwlad, sy'n gorfflu, criw neu adran o luoedd sy'n bresennol am y tro yn y Deyrnas Unedig (gan gynnwys dyfroedd tiriogaethol y Deyrnas Unedig), ar wahoddiad Llywodraeth Ei Mawrhydi yn y Deyrnas Unedig.

**4.** Swyddog i Lywodraeth dramor y mae'n ofynnol iddo deithio i'r Deyrnas Unedig i ymgymryd â dyletswyddau diogelwch ffin hanfodol, neu gontractwr sy'n cefnogi'r dyletswyddau diogelwch ffin hanfodol hyn yn uniongyrchol—

(a) pan fo'r swyddog neu'r contractwr yn meddu ar hysbysiad ysgrifenedig a lofnodwyd gan aelod uwch o'r Llywodraeth dramor sy'n cadarnhau ei bod yn ofynnol iddo ymgymryd â dyletswyddau diogelwch ffin hanfodol yn y Deyrnas Unedig o fewn 14 diwrnod ar ôl iddynt gyrraedd ac na ellir ymgymryd â'r gwaith hwnnw tra bo'r person yn cydymffurfio â rheoliad 7 neu 8, neu

(b) pan fo lleoliad y swyddog neu'r contractwr yn unol â chytundeb dwyochrog neu amlochrog sefydlog gyda Llywodraeth Ei Mawrhydi ar weithredu rheolaethau ffin yn y Deyrnas Unedig.

**5.** Person sydd, ar ôl cyrraedd y Deyrnas Unedig, yn pasio drwodd i wlad neu diriogaeth arall heb ddod i'r Deyrnas Unedig.

## RHAN 2

### Personau nad yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheoliad 7 nac 8

**6.** (1) Gweithiwr cludiant ffyrdd.

(2) At ddibenion y paragraff hwn—

(a) mae "gyrrwr" yn cynnwys person sy'n teithio mewn cerbyd fel gyrrwr wrth gefn,

(b) mae i "cerbyd nwyddau" yr ystyr a roddir i "goods vehicle" yn adran 192 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988(**52**),

(d) ystyr "gweithiwr cludiant ffyrdd" yw—

(i) gyrrwr cerbyd nwyddau sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â chludo nwyddau, ac eithrio nwyddau at ddiben personol anfasnachol y gyrrwr, neu

(ii) person a gyflogir gan ddeiliad trwydded Gymunedol a ddyroddwyd o dan Erthygl 4 o Reoliad (EC) Rhif 1072/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor (**53**), ac sy'n gweithredu yng nghwrs ei gyflogaeth,

**6A.** (1) Gweithiwr cludiant teithwyr ffyrdd.

(2) At ddibenion y paragraff hwn—

(a) ystyr "gweithiwr cludiant teithwyr ffyrdd" yw—

(i) gyrrwr cerbyd gwasanaeth cyhoeddus, neu

(ii) person a gyflogir gan ddeiliad trwydded Gymunedol a ddyroddwyd o dan Erthygl 4 o Reoliad (EC) Rhif 1073/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**54**), ac sy'n gweithredu yng nghwrs ei gyflogaeth;

(**52**) 1988 p. 52. Ceir diwygiadau i adran 192 ond nid yw'r un yn berthnasol.

(**53**) OJ Rhif L300, 14.11.2009, t. 72.

(**54**) OJ Rhif L 300, 14.11.2009, t. 88.

~~(b) mae "gyrrwr" yn cynnwys person sy'n teithio mewn cerbyd fel gyrrwr wrth gefn;~~

~~(c) mae i "cerbyd gwasanaeth cyhoeddus" yr ystyr a roddir i "public service vehicle" yn adran 1 o Ddeddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981(**55**).~~

~~**7.** (1) Meistri a morwyr, fel y'u diffinnir yn adran 313(1) o Ddeddf Llongau Masnach 1995(**56**), pan fônt wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs eu gwaith neu wedi eu dychwelyd i'r Deyrnas Unedig yn unol â Chonfensiwn Llafur Morwrol 2006 neu Gonfensiwn Gwaith mewn Pysgota 2007.~~

~~(2) At ddibenion is-baragraff (1)[5]—~~

~~(a) ystyr "Confensiwn Llafur Morol 2006" yw'r Confensiwn a fabwysiadwyd ar 23 Chwefror 2006 gan Gynhadledd Gyffredinol y Sefydliad Llafur Rhyngwladol(**57**),~~

~~(b) ystyr "Confensiwn Gwaith mewn Pysgota 2007" yw'r Confensiwn a fabwysiadwyd yng Ngenefa ar 14 Mehefin 2007 gan y Sefydliad Llafur Rhyngwladol(**58**).~~

~~**8.** Peilot, fel y'i diffinnir ym mharagraff 22(1) o Atodlen 3A i Ddeddf Llongau Masnach 1995(**59**), pan fo'r peilot wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith neu wedi ei ddychwelyd i'r Deyrnas Unedig.~~

~~**9.** Arolygydd neu syrfëwr llongau, a benodwyd o dan adran 256 o Ddeddf Llongau Masnach 1995(**60**) neu gan lywodraeth meddiant Prydeinig perthnasol fel y diffinnir "relevant British possession" yn adran 313(1) o'r Ddeddf honno, pan fo wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith.~~

~~**10.** (1) Aelod o griw awyren pan fo wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith neu y mae'n ofynnol iddo deithio i'r Deyrnas Unedig fel arall at ddibenion gwaith.~~

~~(2) At ddibenion y paragraff hwn—~~

~~(a) ystyr "aelod o griw awyren" yw person sydd—~~

~~(i) yn gweithredu fel peilot, llywiwr hedfan, peiriannydd hedfan neu weithredwr radioteleffoni hedfan yr awyren,~~

~~(ii) yn cael ei gludo ar y dec hedfan ac yn cael ei benodi gan weithredwr yr awyren i roi neu i oruchwylio'r hyfforddiant, y profiad, yr ymarfer a'r profion cyfnodol sy'n ofynnol ar gyfer y criw hedfan o dan erthygl 114(2) o Orchymyn Llywio Awyr 2016( ), neu~~

~~(iii) yn cael ei gludo ar yr hediad at ddiben cyflawni dyletswyddau sydd i'w haseinio gan y gweithredwr neu'r peilot sydd â rheolaeth o'r awyren er budd diogelwch teithwyr neu'r awyren;~~

~~(b) mae teithio at ddibenion gwaith yn cynnwys, yn benodol—~~

~~(i) pan fo'r aelod o griw awyren yn preswylio y tu allan i'r Deyrnas Unedig, teithio i'r Deyrnas Unedig i weithio ar awyren sy'n ymadael â'r Deyrnas Unedig,~~

~~(**55**) 1981 p. 14. Diwygiwyd adran 1 gan adran 139(3) o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 (p. 67)~~

~~(**56**) 1995 p. 21. Ceir diwygiadau i adran 313(1) ond nid yw'r un yn berthnasol.~~

~~(**57**) Gorch. 7049. ISBN 978 010 1889 766.~~

~~(**58**) Gorch. 7375.~~

~~(**59**) Mewnosodwyd Atodlen 3A gan Atodlen 1 i Ddeddf Diogelwch Morol 2003 (p. 16).~~

~~(**60**) 1995 p. 21.~~

(ii) teithio i fynychu hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith yn y Deyrnas Unedig,

(iii) dychwelyd i'r Deyrnas Unedig yn dilyn hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

**11.** Arolygwr hedfan sifil, fel y'u diffinnir yn Atodlen 9 i'r Confensiwn ar Hedfan Sifil Rhyngwladol a lofnodwyd yn Chicago ar 7 Rhagfyr 1944(**61**), pan fo'r arolygwr wedi teithio i'r Deyrnas Unedig wrth ymgymryd â dyletswyddau arolygu.

**13.** (1) Unrhyw berson y mae'r Adran berthnasol wedi ardystio ei fod yn bodloni'r disgrifiadau yn is-baragraffau (a), (b) neu (c)—

(a) gwas i'r Goron neu gontractwr llywodraeth y mae'n ofynnol iddo ymgymryd â gwaith plismona hanfodol neu waith llywodraeth hanfodol yn y Deyrnas Unedig yn ystod y cyfnod y byddai wedi bod yn ofynnol iddo, oni bai am y paragraff hwn, hunanynysu yn unol â rheoliadau 7 neu 8;

(b) person sy'n dychwelyd o gynnal busnes hanfodol y wladwriaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig;

(c) person sy'n dychwelyd i'r Deyrnas Unedig pan fo hynny'n angenrheidiol i hwyluso gweithrediad cenhadaeth ddiplomyddol neu swydd gonsylaidd Ei Mawrhydi, neu benodiad milwrol neu benodiad swyddogol arall ar ran Ei Mawrhydi.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)—

(a) ystyr "swydd gonsylaidd" yw unrhyw brif gonswl, conswl, is-gonswl neu asiantaeth gonsylaidd,

(b) mae i "gwas i'r Goron" yr ystyr a roddir i "Crown servant" yn adran 12(1)(a) i (e) o Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989,

(c) ystyr "gwaith llywodraeth hanfodol" yw gwaith sydd wedi ei ddynodi felly gan Weinidogion Cymru neu'r Adran berthnasol, ac mae'n cynnwys, yn benodol, waith sy'n gysylltiedig â diogelwch gwladol, gwaith yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn unol â'i swyddogaethau statudol, a gwaith sy'n ymwneud â mewnfudo, clefyd y coronafeirws neu unrhyw ymateb argyfwng arall, ond nid yw'n cynnwys gwaith o'r disgrifiad a bennir ym mharagraff 2(1) o Ran 1 o'r Atodlen hon,

(d) ystyr "plismona hanfodol" yw plismona sydd wedi ei ddynodi felly ar ran y prif swyddog perthnasol neu'r prif gwnstabl perthnasol,

(e) ystyr "busnes hanfodol y wladwriaeth" yw gweithgaredd a ddynodwyd yn hanfodol i'r Deyrnas Unedig neu Lywodraeth Ei Mawrhydi gan yr Adran berthnasol, ac mae'n cynnwys, yn benodol, drafodaethau dwyochrog neu amlochrog â gwladwriaeth arall neu sefydliad rhyngwladol arall ac ymweliadau â gwladwriaeth arall ar ran y Deyrnas Unedig neu Lywodraeth ei Mawrhydi,

(f) mae i "contractwr llywodraeth" yr ystyr a roddir i "government contractor" yn adran 12(2) o Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.

**13A.** (1) Person sy'n dychwelyd o ymgymryd â gwaith hanfodol neu waith brys y tu allan i'r Deyrnas Unedig, a ardystiwyd gan yr Adran berthnasol yn waith sy'n angenrheidiol i hwyluso gwaith llywodraeth hanfodol neu fusnes hanfodol y wladwriaeth.

